Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1268 (Cy. 214)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu i raddau helaeth, o ran Cymru, Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 ("y Rheoliadau AC") gyda'r diwygiadau i'r Rheoliadau hynny a wnaed gan O.S. 2013/747 (Cy. 89), 2014/58 (Cy. 5), 2014/110 (Cy. 10), 2016/611 (Cy. 168), 2018/558 (Cy. 97), 2022/564 (Cy. 130), 2022/767 (Cy. 167), 2024/244 (Cy. 49), a 2024/447 (Cy. 75).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") ac yn ailddatgan darpariaethau sy'n ymwneud â chofrestru arolygwyr cofrestredig adeiladu a chymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu, sancsiynau ar gyfer cymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu ac apelau.

Mae adran 47 o Ddeddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984") yn darparu y caniateir i'r cyfrifoldeb dros arolygu planiau a gwaith adeiladu ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau adeiladu, yn ôl opsiwn y person sy'n bwriadu cynnal y gwaith, gael ei roi i gymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ("cymeradwywr") yn hytrach nag i'r awdurdod lleol.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch goruchwylio gwaith adeiladu gan gymeradwywyr, gan gynnwys annibyniaeth cymeradwywyr a'u swyddogaethau, ac mae'n gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy'n destun darpariaethau hysbysiad cychwynnol Rheoliadau Adeiladu 2010 ("Rheoliadau 2010") a rheoliad 7A o

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012.

Mae rheoliad 3 yn deillio o reoliad 9 o'r Rheoliadau AC ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gymeradwywyr beidio â chael unrhyw fuddiant proffesiynol nac ariannol yn y gwaith y maent yn ei oruchwylio. Mae rheoliad 4, sy'n pennu swyddogaethau cymeradwywyr, yn deillio o reoliad 8 o'r Rheoliadau AC. Mae rheoliad 5 yn deillio o reoliad 20 o'r Rheoliadau AC.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gofynion gweithdrefnol pan gaiff gwaith adeiladu ei oruchwylio gan gymeradwywyr, gan gynnwys y ffurflenni sydd i'w defnyddio ar gyfer hysbysiadau cychwynnol, hysbysiadau diwygio, tystysgrifau planiau a thystysgrifau terfynol, y seiliau dros wrthod yr hysbysiadau a'r tystysgrifau hyn, y cyfnod ar gyfer eu gwrthod, a gofynion ymgynghori.

Mae rheoliad 6 a Ffurflenni 1(C), 4(C) a 7(C) yn deillio o reoliadau 10 ac 16A(1) o'r Rheoliadau AC, a Ffurflenni 1(C), 4(C) a 7(C) yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny. Mae Atodlen 2 yn deillio o Atodlen 2 i'r Rheoliadau AC.

Mae rheoliad 7 a Ffurflenni 2(C) a 7(C) yn deillio o reoliadau 11 ac 16A(1) o'r Rheoliadau AC, a Ffurflenni 2(C) a 7(C) yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 8 yn deillio o reoliad 12 o'r Rheoliadau AC. Mae rheoliad 9 yn deillio o reoliad 13 o'r Rheoliadau AC.

Mae rheoliad 10 a Ffurflenni 3(C) a 4(C) yn deillio o reoliadau 14 ac 16A(1) o'r Rheoliadau AC, a Ffurflenni 3(C), 4(C) a 7(C) yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny. Mae Atodlen 3 yn deillio o Atodlen 3 i'r Rheoliadau AC.

Mae rheoliad 11 yn deillio o reoliad 15 o'r Rheoliadau AC.

Mae rheoliad 12 a Ffurflen 5(C) yn deillio o reoliad 16 o'r Rheoliadau AC, a Ffurflen 5(C) yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny. Mae Atodlen 4 yn deillio o Atodlen 4 i'r Rheoliadau AC.

Mae rheoliad 13 a Ffurflen 8(C) yn deillio o reoliad 16A(2) o'r Rheoliadau AC, a Ffurflen 8(C) yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 14 yn deillio o reoliad 17 o'r Rheoliadau AC.

Mae rheoliadau 15 ac 16 a Ffurflenni 9(C) i 17(C) yn deillio o reoliadau 18 a 18A o'r Rheoliadau AC, a Ffurflenni 9(C) i 17(C) yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gweithdrefnau pan fo gwaith adeiladu'n dychwelyd i awdurdod lleol wrth i hysbysiad cychwynnol beidio â bod mewn grym.

Mae rheoliad 17 yn deillio o reoliad 19 o'r Rheoliadau AC. Mae rheoliad 18 yn deillio o reoliad 19A o'r Rheoliadau AC.

Mae rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefyllfa pan fo hysbysiad cychwynnol yn peidio â bod mewn grym a phan fo cymeradwywr newydd yn cael ei benodi. Yn benodol, mae rheoliad 20 yn deillio o reoliad 19C o'r Rheoliadau AC ac yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnwys tystysgrif drosglwyddo, ac mae rheoliad 22 ac Atodlen 5 yn deillio o reoliad 19E o'r Rheoliadau AC ac Atodlen 3A iddynt ac yn nodi'r seiliau dros wrthod tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo.

Mae rheoliad 23 yn deillio o reoliad 27 o'r Rheoliadau AC ac yn rhagnodi amgylchiadau pan ganiateir rhoi hysbysiad cychwynnol pellach ar ôl canslo hysbysiad cychwynnol o dan adran 53D o Ddeddf 1984. Mae'r rhain yn cynnwys y cymeradwywr yn canslo'r hysbysiad o dan adran 52(1)(a) o Ddeddf 1984, y person sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal y gwaith yn canslo'r hysbysiad cychwynnol o dan adran 53D(3) o Ddeddf 1984, a bod y cymeradwywr wedi cael gorchymyn disgyblu penodedig.

Mae Adran 54 o Ddeddf 1984 yn caniatáu i gyrff cyhoeddus cymeradwy oruchwylio eu gwaith adeiladu eu hunain. Mae Rhan 6 yn cwmpasu cymeradwyo cyrff cyhoeddus, a gofynion gweithdrefnol ac ymgynghori pan fo cyrff cyhoeddus yn goruchwylio eu gwaith eu hunain gan gynnwys yn benodol ffurfiau rhagnodedig hysbysiad corff cyhoeddus, tystysgrif blaniau a thystysgrif derfynol, a seiliau'r awdurdod lleol dros wrthod hysbysiad a thystysgrifau o'r fath.

Mae rheoliad 24 yn deillio o reoliad 21 o'r Rheoliadau AC.

Mae rheoliad 25 a Ffurflen PB1(C) yn deillio o reoliad 22 o'r Rheoliadau AC, a Ffurflen PB1(C) yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny. Mae Atodlen 6 yn deillio o Atodlen 5 i'r Rheoliadau AC. Mae rheoliad 26 yn deillio o reoliad 23 o'r Rheoliadau AC ac mae rheoliad 27 yn deillio o reoliad 24 o'r Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 28 a Ffurflenni PB2(C) a PB3(C) yn deillio o reoliad 25 o'r Rheoliadau AC a Ffurflenni PB2(C) a PB3(C) yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny. Mae Atodlen 7 yn deillio o Atodlen 6 i'r Rheoliadau AC. Mae rheoliad 29 yn deillio o reoliad 26 o'r Rheoliadau AC.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 30 a Ffurflen PB4(C) yn deillio o reoliad 27 a Ffurflen PB4(C) yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau AC. Mae Atodlen 8 yn deillio o Atodlen 7. Mae rheoliad 31 yn deillio o reoliad 28 o'r Rheoliadau AC.

Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau hyn yn darparu yn rheoliad 32 ar gyfer cynnwys cofrestrau lleol o hysbysiadau a thystysgrifau, mae rheoliad 33 yn darparu ar gyfer hyd cyfnodau cofrestru ar gyfer cymeradwywyr ac arolygwyr cofrestredig adeiladu, mae rheoliad 34 yn nodi darpariaeth ynghylch pryd y mae rhaid anfon copïau o sancsiynau disgyblu a ddyroddwyd yn erbyn cymeradwywyr at awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae rheoliad 35 yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud neu'n dirymu gorchymyn o dan adran 58V o Ddeddf 1984, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi copi o'r gorchymyn atal dros dro interim i bob awdurdod lleol yng Nghymru pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod y toriad a amheuir mor ddifrifol fel eu bod, os ydynt yn penderfynu bod y toriad wedi digwydd, yn debygol o wneud gorchymyn o dan adran 58U(2)(d) o Ddeddf 1984 yn canslo cofrestriad y person. Mae rheoliad 36 yn gwneud darpariaethau ynghylch y penderfyniadau yn Rhan 2A o Ddeddf 1984 y caniateir eu hapelio. Mae rheoliad 36(1) yn nodi, os gwneir apêl, fod rhaid iddi gael ei gwneud drwy gŵyn i'r llys ynadon. Mae rheoliad 36(2) yn nodi'r seiliau dros apelio. Mae rheoliad 36(3) yn nodi'r terfyn amser ar gyfer apelio. Mae rheoliad 36(4) yn nodi'r rhwymedïau sydd ar gael i'r llys ynadon ar apêl.

Mae rheoliad 32 yn deillio o reoliad 30 o'r Rheoliadau AC. Mae rheoliad 34 yn deillio o reoliad 2 a 3 o Reoliadau 2023.

Mae rheoliad 34 yn deillio o reoliad 4 o Reoliadau 2023. Mae rheoliad 35 yn deillio o reoliad 5 o Reoliadau 2023. Mae rheoliad 36 yn deillio o reoliad 6 o Reoliadau 2023.

Mae Rhan 8 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau amrywiol gan gynnwys nifer o ddiwygiadau canlyniadol i offerynnau eraill, a'r dirymiadau a grybwyllir uchod, a darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed.

Mae rheoliad 37 yn deillio o reoliad 31 o'r Rheoliadau AC.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1268 (Cy. 214)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024

*Gwnaed* *28 Tachwedd 2024*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *3 Rhagfyr 2024*

*Yn dod i rym* *1 Ionawr 2025*

CYNNWYS

RHAN 1
Cyffredinol

1. Enwi, dod i rym a chymhwyso
2. Dehongli

RHAN 2
Cymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu

3. Annibyniaeth cymeradwywyr
4. Swyddogaethau cymeradwywyr
5. Addasu Rheoliadau 2010 etc.

RHAN 3
Hysbysiadau a thystysgrifau etc.

6. Ffurf yr hysbysiad cychwynnol, y seiliau dros ei wrthod a'r cyfnod ar gyfer ei wrthod
7. Ffurf yr hysbysiad diwygio, y seiliau dros ei wrthod a'r cyfnod ar gyfer ei wrthod

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

8. Ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub
9. Ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth
10. Ffurf y dystysgrif blaniau, y seiliau dros ei gwrthod a'r cyfnod ar gyfer ei gwrthod
11. Effaith y dystysgrif blaniau
12. Ffurf y dystysgrif derfynol, y seiliau dros ei gwrthod a'r cyfnod ar gyfer ei gwrthod
13. Ffurf hysbysiad o dan adran 51C o Ddeddf 1984
14. Digwyddiadau sy'n peri i'r hysbysiad cychwynnol beidio â bod mewn grym
15. Canslo hysbysiad cychwynnol: ffurflenni etc.
16. Canslo hysbysiad cychwynnol: hysbysiad o dorri rheoliadau adeiladu

RHAN 4

Trosglwyddo prosiectau yn ôl i'r awdurdod lleol

17. Pwerau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwaith sydd wedi ei gwblhau yn rhannol
18. Cyfnodau y mae rhaid darparu gwybodaeth am waith y mae hysbysiad cychwynnol yn ymwneud ag ef ynddynt

RHAN 5

Trosglwyddo prosiectau i gymeradwywr arall

19. Adran 53(7): darpariaeth ragnodedig
20. Gwybodaeth i'w chynnwys mewn tystysgrifau trosglwyddo
21. Cyfnod ar gyfer ystyried tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo gan awdurdod lleol
22. Y seiliau dros wrthod tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo
23. Achosion pan ganiateir rhoi hysbysiad cychwynnol pellach ar ôl canslo hysbysiad cychwynnol o dan adran 53D

RHAN 6

Cyrff Cyhoeddus

24. Cymeradwyo cyrff cyhoeddus

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

25. Ffurf hysbysiad corff cyhoeddus, y seiliau dros ei wrthod a'r cyfnod ar gyfer ei wrthod
26. Ymgynghoriad corff cyhoeddus â'r awdurdod tân ac achub
27. Ymgynghoriad corff cyhoeddus â'r ymgymerwr carthffosiaeth
28. Ffurf tystysgrif blaniau corff cyhoeddus, y seiliau dros ei gwrthod a'r cyfnod ar gyfer ei gwrthod
29. Effaith tystysgrif blaniau corff cyhoeddus
30. Ffurf tystysgrif derfynol corff cyhoeddus, y seiliau dros ei gwrthod a'r cyfnod ar gyfer ei gwrthod
31. Digwyddiadau sy'n peri i hysbysiad corff cyhoeddus beidio â bod mewn grym

RHAN 7

Cofrestrau o hysbysiadau etc.

32. Cofrestr o hysbysiadau a thystysgrifau
33. Cyfnodau cofrestru
34. Torri rheolau ymddygiad proffesiynol
35. Atal dros dro interim am doriad difrifol a amheuir
36. Apelio penderfyniad a wnaed gan Weinidogion Cymru

RHAN 8

Amrywiol

37. Torri rheoliadau penodol yn peidio â bod yn drosedd
38. Diwygiad canlyniadol i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
39. Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010
40. Diwygiad canlyniadol i Reoliadau 2010
41. Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Adeiladu (Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig) (Cymru) 2024
42. Dirymiadau, darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed

---

ATODLEN 1 — Ffurflenni

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ATODLEN 2 — Y seiliau dros wrthod hysbysiad cychwynnol, hysbysiad diwygio, neu dystysgrif blaniau wedi ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol
ATODLEN 3 — Y seiliau dros wrthod tystysgrif blaniau, neu dystysgrif blaniau wedi ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol
ATODLEN 4 — Y seiliau dros wrthod tystysgrif derfynol
ATODLEN 5 — Y seiliau dros wrthod tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo
ATODLEN 6 — Y seiliau dros wrthod hysbysiad corff cyhoeddus, neu hysbysiad corff cyhoeddus wedi ei gyfuno â thystysgrif blaniau
ATODLEN 7 — Y seiliau dros wrthod tystysgrif blaniau corff cyhoeddus, neu hysbysiad corff cyhoeddus wedi ei gyfuno â thystysgrif blaniau
ATODLEN 8 — Y seiliau dros wrthod tystysgrif derfynol corff cyhoeddus

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

1(1)(**1**), 2A(**2**), 34, 35, 47(1)(**3**), (2), (3), (4)(**4**) a (5)(**5**), 50(1A), (1D)(**6**), (4)(**7**), (6), a (7)(**8**), 51(1)(**9**) a (2), 51A(2)(**10**), (3), (5) a (6), 52(1)(**11**), (2)(**12**), (3)(**13**), (5)(**14**), (5A)(**15**) a (7)(**16**), 52A(1)(**17**), (2) a (4), 53(2), (4), (4B)(**18**), (4C)(**19**), a (7), 53B(5)(**20**), 53C(3)(**21**) a (6), 53D(2)(**22**), (3), (5), 54(1)(**23**), (2) a (3), 56(1)(**24**), 58C(5), 58O(4), 58U(4), 58V(4)(**25**), a 92(2)(**26**) o Ddeddf Adeiladu 1984(**27**), a pharagraffau

---

(**1**) Diwygiwyd adran 1(1) gan adran 1(1), (2) a (3) o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22) ("Deddf 2004"), a pharagraffau 1, 2(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 (p. 30) ("Deddf 2022"). Gweler y diffiniadau o "appropriate national authority" a "prescribed" yn adran 126 o Ddeddf Adeiladu 1984 (p. 55) ("Deddf 1984").
(**2**) Mewnosodwyd adran 2A gan adran 4(1) o Ddeddf 2004.
(**3**) Diwygiwyd adran 47(1) gan erthygl 3(2)(a) o O.S. 1996/1905 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan adran 8(2) o Ddeddf 2004 ac adrannau 46(1), 48(1) a (2)(a) o Ddeddf 2022, a pharagraffau 1 a 4(1) a (2) o Atodlen 4 iddi.
(**4**) Diwygiwyd adran 47(4) gan adrannau 46(4) ac 51(3) o Ddeddf 2022.
(**5**) Diwygiwyd adran 47(5) gan adran 43 o Ddeddf 2022, a pharagraffau 1, 4(1) a (3) o Atodlen 4 iddi.
(**6**) Rhoddwyd adran 50(1A) i (1D) yn lle adran 50(1) gan adran 49(1) a (2)(a) o Deddf 2022.
(**7**) Diwygiwyd adran 50(4) gan adran 49(2)(b) o Ddeddf 2022.
(**8**) Diwygiwyd adran 50(7) gan adran 170(4) o Ddeddf 2022, a pharagraffau 1 a 6 o Atodlen 4 iddi.
(**9**) Amnewidiwyd adran 51(1) gan erthygl 4 o O.S. 1996/1905 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan adran 43 o Ddeddf 2022, a pharagraffau 1 a 7 o Atodlen 4 iddi.
(**10**) Mewnosodwyd adran 51A gan erthygl 2 o O.S. 1996/1905 a diwygiwyd is-adran (2) wedi hynny gan adrannau 43 a 48(1) a (3) o Ddeddf 2022, a pharagraffau 1 ac 8 o Atodlen 4 iddi.
(**11**) Diwygiwyd adran 52(1) gan adrannau 50(1) a (2) o Ddeddf 2022, a pharagraffau 1 a 10(2) o Atodlen 4 iddi, a chan erthygl 3(6)(a) o O.S. 1996/1905.
(**12**) Diwygiwyd adran 52(2) gan adran 8 o Ddeddf 2004, a pharagraffau 1 a 10(3) o Atodlen 4 i Ddeddf 2022.
(**13**) Amnewidiwyd adran 52(3) gan adran 50(3) o Ddeddf 2022.
(**14**) Mae adran 52(5) wedi ei diddymu o ran Lloegr yn unig.
(**15**) Mewnosodwyd adran 52(5A) gan adran 50(5) o Ddeddf 2022.
(**16**) Mewnosodwyd adran 52(7) gan adran 50(6) o Ddeddf 2022.
(**17**) Mewnosodwyd adran 52A gan adran 46(3) o Ddeddf 2022.
(**18**) Mewnosodwyd adran 53(4B) gan adran 52(1) o Ddeddf 2022.
(**19**) Mewnosodwyd adran 53(4C) gan adran 52(1) o Ddeddf 2022.
(**20**) Mewnosodwyd adran 53B gan adran 51(2) o Ddeddf 2022.
(**21**) Mewnosodwyd adran 53C gan adran 51(2) o Ddeddf 2022.
(**22**) Mewnosodwyd adran 53D gan adran 51(2) o Ddeddf 2022.
(**23**) Diwygiwyd adran 54(1) gan adran 55(a) o Ddeddf 2022, a pharagraffau 1 a 46(1) a (2) o Atodlen 5 iddi.
(**24**) Diwygiwyd adran 56(1) gan adran 56(3) o Ddeddf 2022 a chan erthygl 3(9) o O.S. 1996/1905.
(**25**) Mewnosodwyd adrannau 58C, 58O, 58U ac 58V gan adran 42 o Ddeddf 2022.
(**26**) Diwygiwyd adran 92(2) gan adran 55(a) o Ddeddf 2022, a pharagraffau 1 a 57(1) a (3)(a) o Atodlen 5 iddi.
(**27**) 1984 p. 55.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

1(**1**), 1A, 1D, 1F, 1G, 1H, 1I(**2**), 5B(**3**), 7(**4**), 8(**5**) a 10(**6**) o Atodlen 1 iddi, a pharagraffau 1, 2(**7**), 3, 4(**8**) a 5 o Atodlen 4 iddi, ac adrannau 41 a 167(1) o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022(**9**).

Mae Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf 1984, wedi ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2025.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "adeilad" yr ystyr a roddir i "building" gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2010;

ystyr "adeilad GDT" ("*FSO building*") yw adeilad neu unrhyw ran ohono y mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn gymwys iddo, neu a fydd yn gymwys iddo ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu;

mae i "addasiad sylweddol" yr ystyr a roddir i "material alteration" gan reoliad 3(2) o Reoliadau 2010;

ystyr "adroddiad trosglwyddo" ("*transfer report*") yw adroddiad a roddir yn unol ag adran 53B o Ddeddf 1984;

---

(1) Diwygiwyd paragraff 1 gan baragraff 83 o Atodlen 5 i Ddeddf 2022.

(**2**) Mewnosodwyd paragraffau 1A i 1I o Atodlen 1 gan adran 33 o Ddeddf 2022.

(**3**) Mewnosodwyd paragraff 5B o Atodlen 1 gan adran 34 o Ddeddf 2022.

(**4**) Diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2022 a chan adran 11 o Ddeddf Newid Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 (p. 19).

(**5**) Diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004, paragraff 83 o Atodlen 5 i Ddeddf 2022 a chan adran 40 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).

(**6**) Amnewidiwyd paragraff 10 o Atodlen 1 gan adran 83 o Ddeddf 2022.

(**7**) Amnewidiwyd paragraff 2(1) o Atodlen 4 gan adran 49(1) a (3)(a) o Ddeddf 2022.

(**8**) Diwygiwyd paragraff 4 o Atodlen 4 gan baragraff 86 o Atodlen 5 i Ddeddf 2022.

(**9**) 2022 p. 30.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "annedd" yr ystyr a roddir i "dwelling" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2010;

ystyr "arolygydd cofrestredig adeiladu" ("*registered building inspector*") yw unigolyn sydd wedi ei gofrestru yn arolygydd adeiladu yn unol â Rhan 2A o Ddeddf 1984(**1**);

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "awdurdod tân ac achub" yw'r awdurdod gorfodi o fewn yr ystyr a roddir i "fire and rescue authority" gan erthygl 25 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005(**2**);

mae i "codi" yr un ystyr ag a roddir i "erection" yn adran 123 o Ddeddf 1984;

mae i "corff cyhoeddus" yr ystyr a roddir i "public body" gan adran 54(1) o Ddeddf 1984;

ystyr "cymeradwywr" ("*approver*") yw cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu o fewn ystyr adran 58N o Ddeddf 1984(**3**);

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Adeiladu 1984;

mae i "gwaith adeiladu" yr ystyr a roddir i "building work" gan reoliad 3(1) o Reoliadau 2010;

ystyr "hysbysiad corff cyhoeddus" ("*public body's notice*") yw hysbysiad a roddir o dan adran 54(1)(c) o Ddeddf 1984;

mae i "hysbysiad cychwynnol" yr ystyr a roddir i "initial notice" gan adran 47(1)(a) o Ddeddf 1984;

mae i "hysbysiad diwygio" yr ystyr a roddir i "amendment notice" gan adran 51A o Ddeddf 1984;

mae i "newid defnydd sylweddol" yr ystyr a roddir i "material change of use" gan reoliad 5 o Reoliadau 2010;

ystyr "Rheoliadau 2010" ("*the 2010 Regulations*") yw Rheoliadau Adeiladu 2010(**4**);

mae i "rheoliadau adeiladu" yr ystyr a roddir i "building regulations" gan adran 122 o Ddeddf 1984;

mae i "tystysgrif blaniau" yr ystyr a roddir i "plans certificate" gan adran 50(1) o Ddeddf 1984;

---

(**1**) Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan adran 42 o Ddeddf 2022.

(**2**) O.S. 2005/1541, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Mewnosodwyd adran 58N gan adran 42 o Ddeddf 2022.

(**4**) O.S. 2010/2214, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2012/3119, 2013/1959, 2014/110 (Cy. 10), 2015/767, 2016/285, a 2018/1230. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "tystysgrif blaniau corff cyhoeddus" ("*public body's plans certificate*") yw tystysgrif a roddir o dan baragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf 1984;

ystyr "tystysgrif derfynol corff cyhoeddus" ("*public body's final certificate*") yw tystysgrif a roddir o dan baragraff 3 o Atodlen 4 i Ddeddf 1984;

ystyr "tystysgrif drosglwyddo" ("*transfer certificate*") yw tystysgrif a roddir yn unol ag adran 53B o Ddeddf 1984;

ystyr "ymgymerwr carthffosiaeth" ("*sewerage undertaker*") yw person a benodir o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**1**) ar gyfer yr ardal y mae'r adeilad wedi ei leoli ynddi, neu y mae i gael ei leoli ynddi.

(2) Pan fo unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio ffurflen wedi ei rhifo yn Atodlen 1, caniateir defnyddio ffurflen y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at gynnal gwaith yn cynnwys cyfeiriad at wneud newid defnydd sylweddol.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at hysbysiad cychwynnol (pa un a yw wedi ei gyfuno â thystysgrif blaniau ai peidio) i'w ddehongli fel cyfeiriad at yr hysbysiad cychwynnol hwnnw fel y'i diwygiwyd gan hysbysiad diwygio sydd wedi ei dderbyn gan awdurdod lleol.

# RHAN 2

## Cymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu

### Annibyniaeth cymeradwywyr

**3.**—(1) Ni chaiff cymeradwywyr fod ag unrhyw fuddiant proffesiynol nac ariannol yn y gwaith y maent yn ei oruchwylio.

(2) Ystyrir bod gan berson ("P") fuddiant proffesiynol neu ariannol yn y gwaith a ddisgrifir mewn unrhyw hysbysiad neu dystysgrif a roddir o dan y Rheoliadau hyn os—

(a) yw P yn gyfrifol neu wedi bod yn gyfrifol am ddylunio neu adeiladu unrhyw ran o'r gwaith mewn unrhyw swyddogaeth;

(b) yw P neu unrhyw un o enwebeion P yn aelod, yn swyddog neu'n gyflogai i gwmni neu gorff arall sydd â buddiant proffesiynol neu ariannol yn y gwaith;

(**1**) 1991 p. 56.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) yw P yn bartner neu os yw yng nghyflogaeth person sydd â buddiant proffesiynol neu ariannol yn y gwaith.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) mae P i'w drin fel pe bai ganddo fuddiant proffesiynol neu ariannol yn y gwaith hyd yn oed os oes gan P y buddiant hwnnw yn unig fel ymddiriedolwr er budd rhyw berson arall;

(b) yn achos personau priod neu bartneriaid sifil sy'n cyd-fyw, ystyrir bod buddiant un priod neu bartner, os yw'n hysbys i'r llall, hefyd yn fuddiant i'r llall.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn nid yw'r canlynol i'w hystyried yn fuddiant proffesiynol nac ariannol—

(a) ymwneud â'r gwaith fel cymeradwywr,

(b) hawlogaeth i unrhyw ffi a delir am swyddogaeth P fel cymeradwywr,

(c) hawlogaeth i unrhyw ffi a delir am gyflogai i P gynnal swyddogaeth fel arolygydd cofrestredig adeiladu, a

(d) atebolrwydd posibl i dalu unrhyw swm os caiff hawliad ei wneud o dan unrhyw sicrwydd yswiriant.

**Swyddogaethau cymeradwywyr**

**4.**—(1) Cyhyd â bod hysbysiad cychwynnol yn parhau mewn grym, rhaid i'r cymeradwywr a roddodd yr hysbysiad gymryd camau o'r fath (a gaiff gynnwys gwneud profion o waith adeiladu a chymryd samplau o ddeunyddiau) ag sy'n rhesymol i alluogi'r cymeradwywr i gael ei fodloni o fewn terfynau sgìl a gofal proffesiynol y cydymffurfir â'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2) (fel y'u haddesir gan reoliad 5 (addasu Rheoliadau 2010 etc.)).

(2) Y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) yn Rheoliadau 2010—

(i) rheoliad 4 (gofynion sy'n ymwneud â gwaith adeiladu),

(ii) rheoliad 6 (gofynion sy'n ymwneud â newid defnydd sylweddol),

(iii) rheoliad 7 (deunyddiau a chrefftwaith),

(iv) rheoliad 20 (y darpariaethau sy'n gymwys i gynlluniau hunanardystio),

(v) rheoliad 22 (gofynion sy'n ymwneud â newid i statws ynni),

(vi) rheoliad 23 (gofynion ar gyfer adnewyddu neu ailosod elfennau thermol),

(vii) rheoliad 25A (ystyried systemau amgen tra effeithlon ar gyfer adeiladau newydd),

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(viii) rheoliad 26 (cyfraddau allyriadau $CO_2$ ar gyfer adeiladau newydd),

(ix) rheoliad 26A (cyfraddau ynni crai ar gyfer adeiladau newydd),

(x) rheoliad 26B (gwerthoedd perfformiad adeiladwaith ar gyfer anheddau newydd),

(xi) rheoliad 26C (sgôr effeithlonrwydd ynni gofynnol),

(xii) rheoliad 27 (cyfrifiadau cyfradd allyriadau $CO_2$ ),

(xiii) rheoliad 27A (cyfrifiadau cyfradd defnyddio ynni crai),

(xiv) rheoliad 27B (cyfrifiadau gwerthoedd perfformiad adeiladwaith),

(xv) rheoliad 27C (cyfraddau ynni crai targed ar gyfer adeiladau newydd),

(xvi) rheoliad 28 (gwelliannau canlyniadol i berfformiad ynni),

(xvii) rheoliad 36 (effeithlonrwydd dŵr anheddau newydd),

(xviii) rheoliad 37 (cyfrifo'r defnydd o ddŵr dihalog),

(xix) rheoliad 37A (darparu systemau llethu tân awtomatig),

(xx) rheoliad 38 (gwybodaeth am ddiogelwch tân),

(xxi) rheoliad 39 (gwybodaeth am awyru),

(xxii) rheoliad 40 (gwybodaeth am ddefnyddio tanwydd a phŵer),

(xxiii) rheoliad 40A (gwybodaeth am systemau ar gyfer cynhyrchu trydan ar y safle),

(xxiv) rheoliad 40B (gwybodaeth am orgynhesu),

(xxv) rheoliad 41 (profi inswleiddio sain),

(xxvi) rheoliad 42 (profi cyfradd llif awyr awyru mecanyddol),

(xxvii) rheoliad 43 (profi pwysedd),

(xxviii) rheoliad 44 (comisiynu), a

(xxix) rheoliad 44ZA (comisiynu mewn cysylltiad â system ar gyfer cynhyrchu trydan ar y safle), a

(b) yn Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012([1]), reoliad 7A (tystysgrifau perfformiad ynni wrth adeiladu).

---

(1) O.S. 2012/3118. Mewnosodwyd rheoliad 7A gan O.S. 2016/284.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Addasu Rheoliadau 2010 etc.**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau 2010 yn gymwys gyda'r addasiadau ym mharagraff (2) i (11).

(2) Mae rheoliadau 20 (y darpariaethau sy'n gymwys i gynlluniau hunanardystio), 25A (ystyried systemau amgen tra effeithlon ar gyfer adeiladau newydd), 27 (cyfrifiadau cyfradd allyriadau $CO_2$), 27A (cyfrifiadau cyfradd defnyddio ynni crai), 27B (cyfrifiadau gwerthoedd perfformiad adeiladwaith), 27C (cyfraddau ynni crai targed ar gyfer adeiladau newydd), 37 (cyfrifo'r defnydd o ddŵr dihalog), 41 (profi inswleiddio sain), 42 (profi cyfradd llif awyr awyru mecanyddol), 43 (profi pwysedd), 44 (comisiynu) a 44ZA (comisiynu mewn cysylltiad â system ar gyfer cynhyrchu trydan ar y safle) o Reoliadau 2010 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy'n ddarostyngedig i hysbysiad cychwynnol fel pe bai cyfeiriadau at yr awdurdod lleol yn gyfeiriadau at y cymeradwywr.

(3) Mae rheoliad 27(3) o Reoliadau 2010 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy'n destun hysbysiad cychwynnol fel pe bai, ar ôl "work has been completed,", y canlynol wedi ei fewnosod "or, if earlier, the date on which in accordance with regulation 14 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024, the initial notice ceases to be in force".

(4) Mae rheoliad 27A(3) o Reoliadau 2010 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy'n destun hysbysiad cychwynnol fel pe bai, ar ôl "work has been completed," y canlynol wedi ei fewnosod "or, if earlier, the date on which in accordance with regulation 14 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024, the initial notice ceases to be in force".

(5) Mae rheoliad 27B(3) o Reoliadau 2010 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy'n destun hysbysiad cychwynnol fel pe bai, ar ôl "work has been completed," y canlynol wedi ei fewnosod "or, if earlier, the date on which in accordance with regulation 14 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024 the initial notice ceases to be in force".

(6) Mae rheoliad 27C(3) o Reoliadau 2010 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy'n destun hysbysiad cychwynnol fel pe bai, ar ôl "work has been completed," y canlynol wedi ei fewnosod "or, if earlier, the date on which in accordance with regulation 14 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024 the initial notice ceases to be in force".

(7) Mae rheoliad 37(2) o Reoliadau 2010 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy'n destun hysbysiad cychwynnol fel pe bai, ar ôl "work has been completed," y canlynol wedi ei fewnosod ",

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

or, if earlier, the date on which in accordance with regulation 14 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024 the initial notice ceases to be in force".

(8) Mae rheoliad 38 o Reoliadau 2010 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy'n destun hysbysiad cychwynnol fel pe bai, yn lle paragraff (2), y canlynol wedi ei roi—

"(2) The person carrying out the work must give the fire safety information to the responsible person no later than whichever is the earlier of—

(a) the date of completion of the work to which the initial notice relates;

(b) the date of occupation of the building or extension;

(c) the date on which in accordance with regulation 14 (events causing initial notice to cease to be in force) of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024, the initial notice ceases to be in force.".

(9) Mae rheoliad 41 o Reoliadau 2010 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy'n destun hysbysiad cychwynnol fel pe bai—

(a) yn lle paragraff (3)(b), y canlynol wedi ei roi—

"(b) given to the approver in accordance with paragraph (2)(b) not later than 5 days after completion of the work to which the initial notice relates.";

(b) yn lle'r geiriau ym mharagraff (4) "not later than the date on which notice of commencement of the work is given under regulation 16(1)" rhodder y geiriau "prior to commencement of the building work on site".

(10) Mae rheoliad 44 o Reoliadau 2010 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy'n destun hysbysiad cychwynnol fel pe bai, yn lle paragraff (4), y canlynol wedi ei roi—

"(4) The notice must be given to the approver—

(a) subject to sub-paragraphs (b) and (c), not later than 5 days after completion of the work to which the initial notice relates;

(b) where regulation 14 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024 applies, not later than the date on which the initial notice ceases to be in force or, if earlier,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

the end of the period referred to in sub-paragraph (a);

(c) where regulation 20 applies by virtue of regulation 5 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024, not later than the date on which the notice or certificate required by that regulation must be given.”.

(11) Mae rheoliad 44ZA o Reoliadau 2010 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy’n destun hysbysiad cychwynnol fel pe bai, yn lle paragraff (3), y canlynol wedi ei roi—

“(3) The notice must be given to the approver—

(a) subject to sub-paragraphs (b) and (c), not later than 5 days after completion of the work to which the initial notice relates;

(b) where regulation 14 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024 applies, not later than the date on which the initial notice ceases to be in force or, if earlier, the end of the period referred to in sub-paragraph (a);

(c) where regulation 20 applies by virtue of regulation 5 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) Regulations 2024, not later than the date on which the notice or certificate required by that regulation must be given.”.

(12) Mae rheoliad 7A(3) o Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 yn gymwys mewn perthynas â gwaith adeiladu sy’n destun hysbysiad cychwynnol fel pe bai—

(a) cyfeiriadau at yr awdurdod lleol yn gyfeiriadau at y cymeradwywr, a

(b) ym mharagraff (3), “or, if earlier, the date in which in accordance with regulation 14 of the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024, the initial notice ceases to be in force” wedi ei fewnosod ar ôl “work has been completed”.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 3

## Hysbysiadau a thystysgrifau etc.

**Ffurf yr hysbysiad cychwynnol, y seiliau dros ei wrthod a'r cyfnod ar gyfer ei wrthod**

**6.**—(1) Ffurf ragnodedig hysbysiad cychwynnol—

(a) nad yw wedi ei gyfuno â thystysgrif blaniau, yw Ffurflen 1(C) yn Atodlen 1, neu

(b) sydd wedi ei gyfuno â thystysgrif blaniau, yw Ffurflen 4(C) yn Atodlen 1.

(2) Rhaid i'r planiau a'r dogfennau a ddisgrifir yn y ffurflen berthnasol a ragnodir gan baragraff (1) fynd gyda hysbysiad cychwynnol.

(3) Y seiliau y mae rhaid i awdurdod lleol wrthod hysbysiad cychwynnol arnynt yw'r rhai a ragnodir yn Atodlen 2, a'r ffurflen sydd i'w defnyddio ar gyfer gwrthod hysbysiad cychwynnol (pa un a yw wedi ei gyfuno â thystysgrif blaniau neu fel arall) yw Ffurflen 7(C) yn Atodlen 1.

(4) Y cyfnod y caniateir i awdurdod lleol roi hysbysiad gwrthod ar gyfer hysbysiad cychwynnol yw 5 diwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.

**Ffurf yr hysbysiad diwygio, y seiliau dros ei wrthod a'r cyfnod ar gyfer ei wrthod**

**7.**—(1) Ffurf ragnodedig hysbysiad diwygio yw Ffurflen 2(C) yn Atodlen 1.

(2) Rhaid i'r planiau a'r dogfennau a ddisgrifir yn y ffurflen a ragnodir gan baragraff (1) fynd gyda hysbysiad diwygio.

(3) Y seiliau y mae rhaid i awdurdod lleol wrthod hysbysiad diwygio arnynt yw'r rhai a ragnodir ym mharagraffau 1 i 11 o Atodlen 2 a'r ffurflen sydd i'w defnyddio ar gyfer gwrthod hysbysiad diwygio yw Ffurflen 7(C) yn Atodlen 1.

(4) Y cyfnod y caniateir i awdurdod lleol roi hysbysiad gwrthod ar gyfer hysbysiad diwygio yw 5 diwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.

**Ymgynghori â'r Awdurdod Tân ac Achub**

**8.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo—

(a) hysbysiad cychwynnol i'w roi neu wedi ei roi mewn perthynas ag—

(i) codi, estyn neu wneud newid sylweddol i adeilad GDT, neu

(ii) mewn perthynas â gwaith adeiladu mewn cysylltiad â newid defnydd sylweddol perthnasol adeilad, a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) Rhan B o Atodlen 1 i Reoliadau 2010 yn gosod gofynion mewn perthynas â'r gwaith.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r cymeradwywr ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub—

(a) cyn rhoi hysbysiad cychwynnol mewn perthynas â'r gwaith, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny,

(b) cyn rhoi hysbysiad diwygio perthnasol mewn perthynas â'r gwaith, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny,

(c) cyn rhoi tystysgrif blaniau (pa un a yw'n cael ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol ai peidio), a

(d) cyn rhoi tystysgrif derfynol.

(3) Rhaid i gymeradwywr y mae'n ofynnol iddo gan baragraff (2) ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub roi i'r awdurdod tân ac achub—

(a) mewn achos pan fo'r cymeradwywr yn ymgynghori â'r awdurdod mewn cysylltiad â hysbysiad cychwynnol neu hysbysiad diwygio, blaniau digonol i ddangos a fyddai'r gwaith, pe bai'n cael ei gynnal yn unol â'r planiau hynny, yn cydymffurfio â gofynion cymwys Rhan B o Atodlen 1 i Reoliadau 2010, a

(b) mewn achos pan fo'r cymeradwywr yn ymgynghori â'r awdurdod mewn cysylltiad â rhoi tystysgrif blaniau, gopi o'r planiau y mae'r cymeradwywr yn bwriadu rhoi'r dystysgrif mewn perthynas â hwy.

(4) Rhaid i gymeradwywr y mae'n ofynnol iddo gan baragraff (2) ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub—

(a) rhoi sylw i unrhyw safbwyntiau a fynegir gan yr awdurdod, a

(b) peidio â rhoi tystysgrif blaniau na thystysgrif derfynol hyd nes bod 15 diwrnod gwaith wedi mynd heibio o'r diwrnod yr ymgynghorodd y cymeradwywr â'r awdurdod, oni bai bod yr awdurdod wedi mynegi ei farn i'r cymeradwywr cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

(5) Pan fyddai deddfiad lleol, pe bai planiau'n cael eu rhoi ar waith yn unol â rheoliadau adeiladu, yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn cynnal unrhyw waith neu yn ystod cynnal unrhyw waith, rhaid i'r cymeradwywr ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub mewn modd tebyg i'r hyn sy'n ofynnol gan y deddfiad hwnnw.

(6) Yn y rheoliad hwn—

mae "newid defnydd perthnasol" yn newid defnydd sylweddol pan fydd, ar ôl i newid defnydd ddigwydd, Orchymyn Diwygio Rheoleiddio

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(Diogelwch Tân) 2005 yn gymwys, neu'n parhau i fod yn gymwys, i'r adeilad neu unrhyw ran ohono;

mae "hysbysiad diwygio perthnasol" yn hysbysiad diwygio pan fo—

(a) unrhyw ran o'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad cychwynnol, fel y'i hamrywir gan yr hysbysiad diwygio, a hwnnw'n waith na ellid fod wedi ei gynnal o dan yr hysbysiad gwreiddiol ("gwaith ychwanegol")—

(i) yn ymwneud â chodi, estyn neu wneud newid sylweddol i adeilad GDT, neu

(ii) yn waith adeiladu mewn cysylltiad â newid defnydd perthnasol adeilad, a

(b) Rhan B o Atodlen 1 i Reoliadau 2010 yn gosod gofynion mewn perthynas â'r gwaith ychwanegol.

**Ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo hysbysiad cychwynnol neu hysbysiad diwygio i'w roi neu wedi ei roi mewn cysylltiad â gwaith y mae paragraff H4 o Atodlen 1 i Reoliadau 2010 yn gosod gofynion mewn perthynas ag ef.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r cymeradwywr ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth—

(a) cyn rhoi hysbysiad cychwynnol mewn perthynas â'r gwaith, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny,

(b) cyn rhoi hysbysiad diwygio mewn perthynas â'r gwaith, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny,

(c) cyn rhoi tystysgrif blaniau (pa un a yw'n cael ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol ai peidio), a

(d) cyn rhoi tystysgrif derfynol.

(3) Rhaid i gymeradwywr y mae'n ofynnol iddo gan baragraff (2) ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth roi i'r ymgymerwr carthffosiaeth—

(a) mewn achos pan fo'r cymeradwywr yn ymgynghori ag ef mewn cysylltiad â hysbysiad cychwynnol neu hysbysiad diwygio, blaniau digonol i ddangos a fyddai'r gwaith, pe bai'n cael ei gynnal yn unol â'r planiau hynny, yn cydymffurfio â gofynion cymwys paragraff H4 o Atodlen 1 i Reoliadau 2010, a

(b) mewn achos pan fo'r cymeradwywr yn ymgynghori ag ef mewn cysylltiad â rhoi tystysgrif blaniau, gopi o'r planiau y mae'r cymeradwywr yn bwriadu rhoi'r dystysgrif mewn perthynas â hwy.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(4) Rhaid i gymeradwywr y mae'n ofynnol iddo gan baragraff (2) ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth—

(a) rhoi sylw i unrhyw farn a fynegir gan yr ymgymerwr, a

(b) peidio â rhoi tystysgrif blaniau na thystysgrif derfynol nes bod 15 diwrnod gwaith wedi mynd heibio o'r diwrnod yr ymgynghorodd y cymeradwywr â'r ymgymerwr, oni bai bod yr ymgymerwr wedi mynegi ei farn i'r cymeradwywr cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

**Ffurf y dystysgrif blaniau, y seiliau dros ei gwrthod a'r cyfnod ar gyfer ei gwrthod**

**10.**—(1) Ffurf ragnodedig tystysgrif blaniau—

(a) nad yw wedi ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol, yw Ffurflen 3(C) yn Atodlen 1, neu

(b) sydd wedi ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol, yw Ffurflen 4(C) yn Atodlen 1.

(2) Y seiliau y mae rhaid i awdurdod lleol wrthod tystysgrif blaniau nad yw wedi ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol arnynt yw'r rhai a ragnodir yn Atodlen 3 a'r ffurflen sydd i'w defnyddio ar gyfer gwrthod tystysgrif blaniau yw Ffurflen 7(C) yn Atodlen 1.

(3) Y seiliau y mae rhaid i awdurdod lleol wrthod tystysgrif blaniau wedi ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol yw'r rhai a ragnodir yn Atodlen 2 ac Atodlen 3 a'r ffurflen sydd i'w defnyddio ar gyfer gwrthod tystysgrif blaniau yw Ffurflen 7(C) yn Atodlen 1.

(4) Y cyfnod y caniateir i awdurdod lleol roi hysbysiad gwrthod ar gyfer tystysgrif blaniau (pa un a yw wedi ei gyfuno â hysbysiad cychwynnol ai peidio) yw 5 diwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y dystysgrif.

**Effaith y dystysgrif blaniau**

**11.** Os yw hysbysiad cychwynnol yn peidio â bod mewn grym fel y disgrifir yn adran 47(4)(b) o Ddeddf 1984 (canslo etc. hysbysiad cychwynnol) a'r amodau yn adran 53(2) o Ddeddf 1984 (tystysgrif blaniau wedi ei rhoi, ei derbyn a heb ei dadwneud) wedi eu bodloni, ni chaiff yr awdurdod lleol, mewn perthynas ag unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir yn y dystysgrif sydd wedi ei gynnal yn unol â'r planiau y mae'r dystysgrif yn ymwneud â hwy—

(a) rhoi hysbysiad o dan adran 36(1) o Ddeddf 1984 (symud ymaith neu addasu gwaith sy'n torri rheoliadau adeiladu), neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) cychwyn achos o dan adran 35 o Ddeddf 1984 am dorri rheoliadau adeiladu.

### Ffurf y dystysgrif derfynol, y seiliau dros ei gwrthod a'r cyfnod ar gyfer ei gwrthod

**12.**—(1) Ffurf ragnodedig tystysgrif derfynol yw Ffurflen 5(C) yn Atodlen 1.

(2) Y seiliau y mae rhaid i awdurdod lleol wrthod tystysgrif derfynol arnynt yw'r rhai a ragnodir yn Atodlen 4 a'r ffurflen sydd i'w defnyddio ar gyfer gwrthod tystysgrif derfynol yw Ffurflen 7(C) yn Atodlen 1.

(3) Y cyfnod y caniateir i awdurdod lleol roi hysbysiad gwrthod ar gyfer tystysgrif derfynol yw 10 diwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y dystysgrif.

(4) Mae tystiolaeth derfynol a roddir gan gymeradwywr i awdurdod lleol yn unol â'r Rheoliadau hyn yn dystiolaeth (ond nid yn dystiolaeth derfynol) y cydymffurfiwyd â'r gofynion a bennwyd yn y dystysgrif.

### Ffurf hysbysiad o dan adran 51C o Ddeddf 1984

**13.** Wrth roi hysbysiad o dan adran 51C(2) o Ddeddf 1984 (newid person sy'n bwriadu cynnal gwaith) rhaid defnyddio'r ffurflen sydd wedi ei nodi yn Ffurflen 8(C) yn Atodlen 1.

### Digwyddiadau sy'n peri i'r hysbysiad cychwynnol beidio â bod mewn grym

**14.**—(1) Pan wrthodir tystysgrif derfynol a roddwyd mewn cysylltiad â gwaith a ddisgrifir mewn hysbysiad cychwynnol, mae'r hysbysiad cychwynnol yn peidio â bod mewn grym mewn perthynas â'r gwaith a ddisgrifir yn y dystysgrif derfynol ar ddiwedd cyfnod o 4 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad gwrthod.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan fo gwaith a ddisgrifir mewn hysbysiad cychwynnol yn cynnwys codi, estyn neu wneud addasiad sylweddol i adeilad, ac—

(a) meddiennir yr adeilad neu, yn ôl y digwydd, yr estyniad neu unrhyw ran o'r adeilad sydd wedi ei addasu'n sylweddol, a

(b) ni roddir tystysgrif derfynol.

(3) Mae'r hysbysiad cychwynnol yn peidio â bod mewn grym mewn perthynas â'r adeilad, yr estyniad neu'r rhan o'r adeilad sy'n cael ei feddiannu—

(a) os yw'r adeilad yn adeilad GDT, ac eithrio pan fo'n cynnwys fflatiau a rhannau cyffredin ar gyfer y fflatiau hynny yn unig, ar ddiwedd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cyfnod o 4 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod meddiannu, a

(b) mewn unrhyw achos, ar ddiwedd cyfnod o 8 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod meddiannu.

(4) Mae'r hysbysiad cychwynnol yn peidio â bod mewn grym mewn perthynas â newid defnydd sylweddol adeilad ar ddiwedd cyfnod o 8 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r newid defnydd hwnnw'n digwydd, os—

(a) na roddir tystysgrif derfynol, a

(b) yw'r newid defnydd hwnnw'n digwydd.

(5) Mewn unrhyw achos arall pan na roddir tystysgrif derfynol, bydd hysbysiad cychwynnol yn peidio â bod mewn grym ar ddiwedd cyfnod o 8 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblheir y gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad cychwynnol i raddau helaeth.

(6) Nid yw hysbysiad cychwynnol yn peidio â bod mewn grym yn rhinwedd paragraffau (2) a (3) oherwydd bod rhan o adeilad neu estyniad yn cael ei meddiannu os yw tystysgrif derfynol wedi ei derbyn mewn perthynas â'r rhan honno.

(7) Caiff awdurdod lleol estyn unrhyw gyfnod y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn naill ai cyn neu ar ôl iddo ddod i ben.

(8) Yn y rheoliad hwn, mae i "fflat" yr ystyr a roddir i "flat" gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2010.

**Canslo hysbysiad cychwynnol: ffurflenni etc.**

**15.**—(1) Ffurflen 9(C) yn Atodlen 1 yw ffurf yr hysbysiad sydd i'w rhoi, gan gymeradwywr, i ganslo hysbysiad cychwynnol yn unol ag adran 52(1) o Ddeddf 1984 yn seiliedig ar amod yn adran 52(1)(a) i (f) o Ddeddf 1984.

(2) Ffurflen 10(C) yn Atodlen 1 yw ffurf yr hysbysiad sydd i'w rhoi, gan berson sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal gwaith, i ganslo hysbysiad cychwynnol yn unol ag adran 52(3) o Ddeddf 1984.

(3) Ffurflen 11(C) yn Atodlen 1 yw ffurf yr hysbysiad sydd i'w rhoi, gan awdurdod lleol, i ganslo hysbysiad cychwynnol yn unol ag adran 52(5A) o Ddeddf 1984(**1**) yn seiliedig ar amod yn adran 52(5B)(a) i (d) o Ddeddf 1984.

(4) Ffurflen 12(C) yn Atodlen 1 yw ffurf yr hysbysiad sydd i'w rhoi, gan awdurdod lleol o dan adran 52(7) o Ddeddf 1984, i'r person a ddangosir yn yr hysbysiad cychwynnol fel y cymeradwywr.

---

(**1**) Mewnosodwyd adran (5A) yn Neddf Adeiladu 1984 gan adran 50 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(5) Ffurflen 13(C) yn Atodlen 1 yw ffurf yr hysbysiad sydd i'w rhoi, gan gymeradwywr, i ganslo hysbysiad cychwynnol yn unol ag adran 52A(1) o Ddeddf 1984.

(6) Ffurflen 14(C) yn Atodlen 1 yw ffurf yr hysbysiad sydd i'w rhoi, gan berson sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal gwaith, i ganslo hysbysiad cychwynnol yn unol ag adran 52A(2) o Ddeddf 1984.

(7) Ffurflen 15(C) yn Atodlen 1 yw ffurf yr hysbysiad sydd i'w rhoi, gan awdurdod lleol, i ganslo hysbysiad cychwynnol yn unol ag adran 52A(4) o Ddeddf 1984.

(8) Ffurflen 16(C) yn Atodlen 1 yw ffurf yr hysbysiad sydd i'w rhoi, gan awdurdod lleol, i ganslo hysbysiad cychwynnol yn unol ag adran 53D(2) o Ddeddf 1984.

(9) Ffurflen 17(C) yn Atodlen 1 yw ffurf yr hysbysiad sydd i'w rhoi, gan berson sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal gwaith, i ganslo hysbysiad cychwynnol yn unol ag adran 53D(3) o Ddeddf 1984.

**Canslo hysbysiad cychwynnol: hysbysiad o dorri rheoliadau adeiladu**

**16.**—(1) Pan fo cymeradwywr o'r farn y dylid canslo hysbysiad cychwynnol o dan adran 52(1)(c) o Ddeddf 1984 am dorri unrhyw ddarpariaeth o reoliadau adeiladu, rhaid i'r cymeradwywr roi hysbysiad ysgrifenedig yn gyntaf i'r person sy'n cynnal y gwaith ("C") sy'n pennu—

(a) gofyniad rheoliadau adeiladu na chydymffurfiwyd ag ef ym marn y cymeradwywr, a

(b) lleoliad y gwaith sy'n torri'r gofyniad hwnnw.

(2) Rhaid i hysbysiad a roddir yn unol â pharagraff (1) hysbysu C os nad yw C, erbyn diwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (3), naill ai wedi tynnu ymaith na symud ymaith y gwaith nac wedi gwneud addasiadau o'r fath sy'n angenrheidiol er mwyn iddo gydymffurfio â rheoliadau adeiladu, bydd y cymeradwywr yn canslo'r hysbysiad cychwynnol.

(3) Y cyfnod y mae C i unioni'r toriad ynddo yw 3 mis sy'n dechrau â'r diwrnod gwaith y rhoddir yr hysbysiad o dan baragraff (1).

## RHAN 4

### Trosglwyddo prosiectau yn ôl i'r awdurdod lleol

**Pwerau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwaith sydd wedi ei gwblhau yn rhannol**

**17.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) pan fo unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir mewn hysbysiad cychwynnol wedi ei gynnal,

(b) pan fo'r hysbysiad cychwynnol wedi peidio â bod mewn grym oherwydd rheoliad 14 (digwyddiadau sy'n peri i'r hysbysiad cychwynnol beidio â bod mewn grym) neu wedi ei ganslo drwy hysbysiad o dan adran 52 neu 53D o Ddeddf 1984, ac

(c) pan na dderbyniwyd unrhyw hysbysiad cychwynnol arall yn ymwneud â'r rhan honno o'r gwaith.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, rhaid i'r perchennog—

(a) wrth gael rhybudd rhesymol gan yr awdurdod lleol, roi iddynt—

(i) planiau digonol ar gyfer y gwaith a gynhaliwyd, nad oes tystysgrif derfynol wedi ei rhoi mewn cysylltiad ag ef, i ddangos pa un a fyddai unrhyw ran o'r gwaith hwnnw, pe bai'n cael ei gynnal yn unol â'r planiau, yn torri unrhyw ddarpariaeth o Reoliadau 2010, a

(ii) pan roddwyd tystysgrif blaniau ac na chafodd ei gwrthod mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith, gopi o'r planiau y mae'n ymwneud â hwy, a

(b) cydymffurfio ag unrhyw hysbysiad ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog o fewn amser rhesymol agor, tynnu i lawr, neu dorri i mewn i hynny o'r gwaith sy'n atal yr awdurdod lleol rhag canfod a yw unrhyw waith nad oes tystysgrif derfynol mewn perthynas ag ef yn torri unrhyw ofyniad yn Rheoliadau 2010.

(3) Pan fo paragraff (1) yn gymwys ac mae gwaith mewn perthynas ag adeilad wedi dechrau ond heb ei gwblhau, rhaid i berson sy'n bwriadu cynnal gwaith pellach mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi ei gwblhau yn rhannol roi planiau digonol i'r awdurdod lleol i ddangos na fydd y gwaith a fwriedir yn torri unrhyw ofyniad yn Rheoliadau 2010, gan gynnwys planiau o'r fath o unrhyw ran o'r gwaith a wnaed eisoes sy'n angenrheidiol i ddangos y gellir cynnal y gwaith arfaethedig heb fynd yn groes i unrhyw ofyniad o'r fath.

(4) Ni ddylid ystyried planiau a roddir i awdurdod lleol yn unol â pharagraff (3) fel planiau a adneuwyd yn unol â rheoliadau adeiladu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Cyfnodau y mae rhaid darparu gwybodaeth am waith y mae hysbysiad cychwynnol yn ymwneud ag ef ynddynt**

**18.**—(1) At ddibenion adran 53(4B) o Ddeddf 1984, y cyfnod y mae'n ofynnol i berson a ddangosir yn yr hysbysiad cychwynnol fel y cymeradwywr ("P") roi gwybodaeth i'r awdurdod lleol ynddo yw 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad i P o dan adran 53(4A). Caniateir estyn y cyfnod hwn drwy gytundeb ar y cyd rhwng P â'r awdurdod lleol.

(2) At ddibenion adran 53(4C) o Ddeddf 1984, y cyfnod y mae'n ofynnol i P roi gwybodaeth i'r person sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal y gwaith ("C") ynddo yw—

(a) 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddodd yr awdurdod lleol hysbysiad i P o dan adran 53(4A) neu gyfnod estynedig o'r fath fel y cytunir arno rhwng P a'r awdurdod lleol yn unol â pharagraff (1), neu

(b) mewn perthynas â gwybodaeth y gofynnwyd amdani gan C o dan adran 53(4C)(c), neu wybodaeth y gofynnwyd amdani gan C o dan adran 53(4C)(b), 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae C yn rhoi hysbysiad i P o dan adran 53(4C)(c).

(3) Caniateir estyn y cyfnod ym mharagraff (2)(b) drwy gytundeb ar y cyd rhwng P ac C.

## RHAN 5

### Trosglwyddo prosiectau i gymeradwywr arall

**Adran 53(7): darpariaeth ragnodedig**

**19.** At ddibenion adran 53(7)(a)(iii) o Ddeddf 1984, rhagnodir adran 52(1)(a) o Ddeddf 1984.

**Gwybodaeth i'w chynnwys mewn tystysgrifau trosglwyddo**

**20.**—(1) At ddibenion adran 53B(5)(b) o Ddeddf 1984, rhaid i dystysgrif drosglwyddo gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) datganiad yn disgrifio'r gwaith gwreiddiol a'r gwaith anorffenedig;

(b) datganiad yn disgrifio'r holl gamau y mae'r cymeradwywr wedi eu cymryd i benderfynu, yn unol ag adran 53B(2) o Ddeddf 1984, a yw'r gwaith anorffenedig yn torri unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau adeiladu, gan restru yn arbennig—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) pob arolygiad o'r gwaith a wnaed neu bob achos o'i agor;

(ii) pob adroddiad a lunnir o unrhyw arolygiad o'r gwaith neu unrhyw achos o'i agor;

(iii) unrhyw asesiad arall o'r gwaith a ystyriwyd;

(c) datganiad yn nodi enw a chyfeiriad yr arolygydd cofrestredig adeiladu y cafwyd cyngor ganddo o dan adran 54B(3) o Ddeddf 1984(**1**) cyn rhoi'r dystysgrif drosglwyddo;

(d) declarasiwn, wedi ei lofnodi a'i ddyddio gan y cymeradwywr, yn cadarnhau—

(i) bod y cymeradwywr wedi arolygu'r gwaith anorffenedig,

(ii) bod y cymeradwywr wedi penderfynu, fel ar ddyddiad y dystysgrif drosglwyddo, nad yw'r gwaith anorffenedig yn torri unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau adeiladu,

(iii) bod pob adroddiad neu asesiad y cyfeirir ato yn y datganiad o dan baragraff (b) wedi ei gynnwys yn yr adroddiad trosglwyddo a roddir o dan adran 53B o Ddeddf 1984,

(iv) bod yr apelydd wedi cael cyngor gan arolygydd adeiladu cofrestredig o dan adran 54B(3) o Ddeddf 1984 cyn rhoi'r dystysgrif drosglwyddo, a

(v) bod y cymeradwywr wedi cael cytundeb y person sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal y gwaith i gyflwyno'r dystysgrif drosglwyddo a'r adroddiad trosglwyddo.

(2) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae i "gwaith gwreiddiol" yr ystyr a roddir i "original work" yn adran 53(7) o Ddeddf 1984;

(b) mae i "gwaith anorffenedig" yr ystyr a roddir i "unfinished work" yn adran 53B(9) o Ddeddf 1984.

**Cyfnod ar gyfer ystyried tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo gan awdurdod lleol**

**21.** At ddibenion adran 53C(6)(a) o Ddeddf 1984, y cyfnod rhagnodedig yw 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau

(**1**) Mewnosodwyd adran 54B gan adran 44(3) o Ddeddf 2022. Mae rhoi tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo i awdurdod lleol o dan adran 53B(3) yn swyddogaeth gyfyngedig o dan adran 54B o Ddeddf 1984 a rheoliad 4(2)(f) o O.S. 2024/238 (Cy. 48).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

â'r diwrnod y rhoddir y dystysgrif drosglwyddo a'r adroddiad trosglwyddo i'r awdurdod lleol.

**Y seiliau dros wrthod tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo**

**22.** Y seiliau y caniateir i awdurdod lleol wrthod tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo arnynt yw'r rhai a ragnodir yn Atodlen 5.

**Achosion pan ganiateir rhoi hysbysiad cychwynnol pellach ar ôl canslo hysbysiad cychwynnol o dan adran 53D**

**23.**—(1) At ddibenion adran 53D(5) o Ddeddf 1984, mae'r amgylchiadau a ganlyn wedi eu rhagnodi—

(a) mae busnes y cymeradwywr y mae'r hysbysiad cychwynnol yn ymwneud ag ef wedi dod i ben am unrhyw reswm, gan gynnwys yn achos ansolfedd;

(b) mae'r person sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal y gwaith wedi canslo'r hysbysiad cychwynnol o dan adran 53D(3) o Ddeddf 1984 oherwydd eu bod yn fodlon nad oedd y cymeradwywr yn gallu cynnal (neu barhau i gynnal) ei swyddogaethau mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith y mae'r hysbysiad cychwynnol yn ymwneud ag ef;

(c) rhoddwyd gorchymyn disgyblu penodedig i'r cymeradwywr yn ystod y cyfnod perthnasol (fel y'i diffinnir yn adran 53B(7) o Ddeddf 1984).

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gorchymyn disgyblu penodedig" yw—

(a) unrhyw orchymyn disgyblu o dan adran 58U(2)(b) o Ddeddf 1984 (amrywio cofrestriad) fel nad yw'r cymeradwywr bellach yn gallu cynnal ei swyddogaethau mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith y mae'r hysbysiad cychwynnol yn ymwneud ag ef;

(b) unrhyw orchymyn disgyblu o dan adran 58U(2)(c) o Ddeddf 1984 (atal cofrestriad dros dro) ac eithrio unrhyw atal dros dro sydd o ganlyniad i swyddogaethau mewn perthynas â'r gwaith neu'r gwaith anorffenedig i'r person sy'n cynnal y gwaith;

(c) gorchymyn o dan adran 58V o Ddeddf 1984 (atal dros dro interim am doriad difrifol a amheuir) ac eithrio unrhyw atal dros dro interim sydd o ganlyniad i swyddogaethau mewn perthynas â'r gwaith neu'r gwaith anorffenedig i'r person sy'n cynnal y gwaith;

(d) unrhyw orchymyn disgyblu o dan adran 58U(2)(d) o Ddeddf 1984 (canslo cofrestriad)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ac eithrio unrhyw ganslo sydd o ganlyniad i swyddogaethau mewn perthynas â'r gwaith neu'r gwaith anorffenedig i'r person sy'n cynnal y gwaith.

## RHAN 6

## Cyrff Cyhoeddus

**Cymeradwyo cyrff cyhoeddus**

**24.**—(1) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru—

(a) y dylid galluogi cyrff cyhoeddus o ddisgrifiad penodol i oruchwylio eu gwaith eu hunain o dan adran 54 o Ddeddf 1984, neu

(b) y dylid cymeradwyo corff cyhoeddus at ddiben goruchwylio ei waith ei hun felly,

caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r disgrifiad hwnnw o gorff neu, yn ôl y digwydd, y corff hwnnw yn ysgrifenedig a chymryd unrhyw gamau a ymddengys yn briodol iddynt i hysbysu'r awdurdodau lleol a'r cyrff cyhoeddus hynny y bydd rhoi'r gymeradwyaeth yn effeithio arnynt.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir i unrhyw gorff cyhoeddus yr effeithir arno, a chymryd unrhyw gamau a ymddengys yn briodol iddynt i hysbysu awdurdodau lleol am dynnu'n ôl o'r fath.

**Ffurf hysbysiad corff cyhoeddus, y seiliau dros ei wrthod a'r cyfnod ar gyfer ei wrthod**

**25.**—(1) Ffurf ragnodedig hysbysiad corff cyhoeddus—

(a) nad yw wedi ei gyfuno â thystysgrif blaniau corff cyhoeddus, yw Ffurflen PB1(C) yn Atodlen 1, neu

(b) sydd wedi ei gyfuno â thystysgrif blaniau corff cyhoeddus, yw Ffurflen PB3(C) yn Atodlen 1.

(2) Rhaid i'r planiau a'r dogfennau a ddisgrifir yn y ffurflen berthnasol a ragnodir gan baragraff (1) fynd gyda hysbysiad corff cyhoeddus.

(3) Y seiliau y mae rhaid i awdurdod lleol wrthod hysbysiad corff cyhoeddus arnynt yw'r rhai a ragnodir yn Atodlen 6.

(4) Y cyfnod y caniateir i awdurdod lleol roi hysbysiad gwrthod ar gyfer hysbysiad corff cyhoeddus yw 10 diwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Ymgynghoriad corff cyhoeddus â'r awdurdod tân ac achub**

**26.** Mae rheoliad 8 yn gymwys pan roddir hysbysiad corff cyhoeddus fel y mae'n gymwys pan roddir hysbysiad cychwynnol ond fel pe bai—

(a) unrhyw gyfeiriad at hysbysiad cychwynnol yn gyfeiriad at hysbysiad corff cyhoeddus,

(b) unrhyw gyfeiriad at dystysgrif blaniau yn gyfeiriad at dystysgrif blaniau corff cyhoeddus, ac

(c) unrhyw gyfeiriad at dystysgrif derfynol yn gyfeiriad at dystysgrif derfynol corff cyhoeddus.

**Ymgynghoriad corff cyhoeddus â'r ymgymerwr carthffosiaeth**

**27.** Mae rheoliad 9 yn gymwys pan roddir hysbysiad corff cyhoeddus fel y mae'n gymwys pan roddir hysbysiad cychwynnol ond fel petai—

(a) unrhyw gyfeiriad at hysbysiad cychwynnol yn gyfeiriad at hysbysiad corff cyhoeddus,

(b) unrhyw gyfeiriad at dystysgrif blaniau yn gyfeiriad at dystysgrif blaniau corff cyhoeddus, ac

(c) unrhyw gyfeiriad at dystysgrif derfynol yn gyfeiriad at dystysgrif derfynol corff cyhoeddus.

**Ffurf tystysgrif blaniau corff cyhoeddus, y seiliau dros ei gwrthod a'r cyfnod ar gyfer ei gwrthod**

**28.**—(1) Ffurf ragnodedig tystysgrif blaniau corff cyhoeddus—

(a) nad yw wedi ei chyfuno â hysbysiad corff cyhoeddus, yw Ffurflen PB2(C) yn Atodlen 1, neu

(b) sydd wedi ei chyfuno â hysbysiad corff cyhoeddus, yw Ffurflen PB3(C) yn Atodlen 1.

(2) Y seiliau y mae rhaid i awdurdod lleol wrthod tystysgrif blaniau corff cyhoeddus arnynt yw'r rhai a ragnodir yn Atodlen 7.

(3) Y seiliau y mae rhaid i awdurdod lleol wrthod tystysgrif blaniau corff cyhoeddus wedi ei chyfuno â hysbysiad corff cyhoeddus arnynt yw'r rhai a ragnodir yn Atodlen 6 ac Atodlen 7.

(4) Y cyfnod y caniateir i awdurdod lleol roi hysbysiad gwrthod ar gyfer tystysgrif blaniau corff cyhoeddus neu hysbysiad a thystysgrif ar y cyd yw 10 diwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y dystysgrif.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Effaith tystysgrif blaniau corff cyhoeddus**

**29.** Os yw hysbysiad corff cyhoeddus yn peidio â bod mewn grym ac os yw'r amodau ym mharagraff 4(2) o Atodlen 4 i Ddeddf 1984 (tystysgrif blaniau corff cyhoeddus yn cael ei derbyn ac nid ei dadwneud) wedi eu bodloni, ni chaiff yr awdurdod lleol, mewn perthynas ag unrhyw waith a ddisgrifir yn y dystysgrif ac sy'n cael ei gynnal yn unol â'r planiau y mae'r dystysgrif yn ymwneud â hwy—

(a) rhoi hysbysiad o dan adran 36(1) o Ddeddf 1984 (symud ymaith neu addasu gwaith sy'n torri rheoliadau adeiladu), neu

(b) cychwyn achos o dan adran 35 o Ddeddf 1984 am dorri rheoliadau adeiladu.

**Ffurf tystysgrif derfynol corff cyhoeddus, y seiliau dros ei gwrthod a'r cyfnod ar gyfer ei gwrthod**

**30.**—(1) Ffurf ragnodedig tystysgrif derfynol corff cyhoeddus yw Ffurflen PB4(C) yn Atodlen 1 a'r seiliau y mae rhaid i awdurdod lleol wrthod tystysgrif derfynol arnynt yw'r rhai a ragnodir yn Atodlen 8.

(2) Y cyfnod y caniateir i awdurdod lleol roi hysbysiad gwrthod ar gyfer tystysgrif derfynol corff cyhoeddus ynddo yw 10 diwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y dystysgrif.

**Digwyddiadau sy'n peri i hysbysiad corff cyhoeddus beidio â bod mewn grym**

**31.** Mae rheoliad 14 yn gymwys pan roddir hysbysiad corff cyhoeddus fel y mae'n gymwys pan roddir hysbysiad cychwynnol ond fel petai—

(a) unrhyw gyfeiriad at hysbysiad cychwynnol yn gyfeiriad at hysbysiad corff cyhoeddus, a

(b) unrhyw gyfeiriad at dystysgrif derfynol yn gyfeiriad at dystysgrif derfynol corff cyhoeddus.

## RHAN 7

### Cofrestrau o hysbysiadau etc.

**Cofrestr o hysbysiadau a thystysgrifau**

**32.**—(1) Rhaid i'r gofrestr y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei chadw o dan adran 56 o Ddeddf 1984 gynnwys yr wybodaeth a nodir ym mharagraff (2) mewn cysylltiad ag—

(a) hysbysiadau cychwynnol, hysbysiadau diwygio neu hysbysiadau o dan adran 51C o Ddeddf 1984 neu hysbysiadau corff cyhoeddus sydd mewn grym ar hyn o bryd, a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) tystysgrifau planiau, tystysgrifau trosglwyddo ac adroddiadau trosglwyddo, tystysgrifau terfynol, tystysgrifau planiau corff cyhoeddus, tystysgrifau terfynol corff cyhoeddus sydd wedi eu derbyn neu y tybir eu bod wedi eu derbyn.

(2) Yr wybodaeth i'w chofrestru yw—

(a) disgrifiad o'r gwaith y mae'r hysbysiad neu'r dystysgrif yn ymwneud ag ef ac o leoliad y gwaith,

(b) enw a chyfeiriad unrhyw berson a lofnododd yr hysbysiad neu'r dystysgrif, ac

(c) y dyddiad y derbyniwyd yr hysbysiad neu'r dystysgrif arno neu y tybiwyd y'i derbyniwyd arno.

(3) Rhaid i gofrestr gynnwys mynegai ar gyfer galluogi person i olrhain unrhyw gofnod yn y gofrestr drwy gyfeirio at gyfeiriad y tir y mae'r hysbysiad neu'r dystysgrif yn ymwneud ag ef.

(4) Rhaid i'r wybodaeth a ragnodir ym mharagraff (2) gael ei chofnodi yn y gofrestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 14 diwrnod gwaith i'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad neu'r dystysgrif o dan sylw.

**Cyfnodau cofrestru**

**33.**—(1) At ddibenion adran 58C(5) o Ddeddf 1984 (cofrestr o arolygwyr adeiladu), y cyfnod rhagnodedig ar gyfer cofrestru arolygydd cofrestredig adeiladu yw 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r cofrestriad yn cael effaith.

(2) At ddibenion adran 58O(4) o Ddeddf 1984 (cofrestr o gymeradwywyr rheolaeth adeiladu), y cyfnod rhagnodedig ar gyfer cofrestru cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu yw 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r cofrestriad yn cael effaith.

**Torri rheolau ymddygiad proffesiynol**

**34.** At ddibenion adran 58U(4)(b)(ii) o Ddeddf 1984, pan fo Gweinidogion Cymru(**1**) yn gwneud gorchymyn disgyblu mewn perthynas â chymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi copi o'r gorchymyn disgyblu i bob awdurdod lleol yng Nghymru pan fu—

(a) amrywiad o gofrestriad mewn ffordd a bennir yn y gorchymyn,

(**1**) O ran Cymru, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod rheoleiddio. Gweler adran 58A(b) o Ddeddf Adeiladu 1984.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) atal dros dro gofrestriad ar gyfer y cyfnod a bennir yn y gorchymyn, neu

(c) canslo cofrestriad o’r dyddiad a bennir yn y gorchymyn.

**Atal dros dro interim am doriad difrifol a amheuir**

**35.** At ddibenion adran 58V(4)(b)(ii) o Ddeddf 1984, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud (neu’n dirymu) gorchymyn o dan adran 58V o Ddeddf 1984, rhaid iddynt cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol roi copi o’r gorchymyn (neu hysbysiad o’r dirymu) i bob awdurdod lleol yng Nghymru pan fo Gweinidogion Cymru o’r farn bod y toriad a amheuir mor ddifrifol fel eu bod, os ydynt yn penderfynu bod y toriad wedi digwydd, yn debygol o wneud gorchymyn o dan adran 58U(2)(d) o Ddeddf 1984 sy’n canslo cofrestriad y person.

**Apelio penderfyniad a wnaed gan Weinidogion Cymru**

**36.**—(1) Pan ddarperir ar gyfer yr hawl i apelio o dan adran 58D(4), 58I(5), 58J(5), 58P(4), 58U(5), 58V(5), 58Z4(7), 58Z5(9), 58Z6(5) neu 58Z7(5) o Ddeddf 1984, rhaid gwneud apêl i lys ynadon drwy gŵyn.

(2) Ni chaniateir gwneud apêl ond ar un neu ragor o’r seiliau a ganlyn. Y seiliau yw bod penderfyniad Gweinidogion Cymru—

(a) yn wallus yn ffeithiol;

(b) yn anghywir yn gyfreithiol;

(c) yn afresymol;

(d) yn ddiffygiol yn weithdrefnol.

(3) Rhaid gwneud apêl o fewn 21 o ddiwrnodau perthnasol sy’n dechrau â’r diwrnod drannoeth y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu’r ceisydd am y penderfyniad, neu o fewn y cyfnod estynedig hwnnw y caiff y ceisydd a Gweinidogion Cymru gytuno arno yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg.

(4) Ar apêl, caiff llys ynadon gadarnhau, amrywio neu ddiddymu’r penderfyniad sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr “diwrnodau perthnasol” yw unrhyw ddiwrnod heb gynnwys dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy’n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**1**).

(**1**) 1971 p. 80.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 8

## Amrywiol

**Torri rheoliadau penodol yn peidio â bod yn drosedd**

**37.** Mae pob un o'r Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliad 17 (pwerau awdurdod lleol mewn perthynas â gwaith sydd wedi ei gwblhau yn rhannol), wedi ei ddynodi'n ddarpariaeth nad yw adran 35 o Ddeddf 1984 yn gymwys iddi.

**Diwygiad canlyniadol i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005**

**38.** Yn erthygl 30(5)(c) o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 hepgorer "approved inspector or".

**Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010**

**39.**—(1) Mae Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) yn y lle priodol mewnosoder ""the RBCA (Wales) Regulations" means the Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024;";

(b) hepgorer ""the Approved Inspectors Regulations" means the Building (Approved Inspectors etc.) Regulations 2010".

(3) Yn rheoliad 5(1)(d), yn lle "Approved Inspectors Regulations" rhodder "RBCA (Wales) Regulations".

(4) Yn rheoliad 8(1)(d)—

(a) ym mharagraff (i), yn lle "regulation 19(2)(a)(i) of the Approved Inspectors Regulations" rhodder "regulation 17(2)(a)(i) of the RBCA (Wales) Regulations";

(b) ym mharagraff (ii), yn lle "regulation 19(3) of the Approved Inspectors Regulations" rhodder "regulation 17(3) of the RBCA (Wales) Regulations".

**Diwygiad canlyniadol i Reoliadau 2010**

**40.** Yn rheoliad 12(7) o Reoliadau 2010, yn lle "regulation 19 of the Building (Approved Inspectors etc) Regulations 2010" rhodder "regulation 17 of the

(**1**) O.S. 2010/404. Y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Building (Registered Building Control Approvers etc.) (Wales) Regulations 2024".

### Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Adeiladu (Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig) (Cymru) 2024

**41.**—(1) Mae Rheoliadau Adeiladu (Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig) (Cymru) 2024(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y lle priodol mewnosoder "ystyr "Rheoliadau 2024" ("*the 2024 Regulations*") yw Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024.";

(b) hepgorer "ystyr "y Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy" ("*the Approved Inspectors Regulations*") yw Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010.".

(3) Yn rheoliad 3(2)(o)—

(a) yn y geiriau agoriadol, yn lle "rheoliad 19(1) o'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy" rhodder "rheoliad 17(1) o Reoliadau 2024";

(b) ym mharagraff (i), yn lle "reoliad 19(2)(a) o'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy" rhodder "reoliad 17(2)(a) o Reoliadau 2024";

(c) ym mharagraff (ii), yn lle "reoliad 19(2)(b) o'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy" rhodder "reoliad 17(2)(b) o Reoliadau 2024".

### Dirymiadau, darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed

**42.**—(1) O ran Cymru, mae Rhannau 2 – 5, Rhan 6A, Rhan 7 ac Atodlenni 1 – 9 i Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 ("y Rheoliadau AC") wedi eu dirymu, ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraffau (5) i (7).

(2) Mae'r darpariaethau a ganlyn wedi eu dirymu:

(a) rheoliadau 29 i 33 o Reoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2013(**2**);

(b) Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) (Diwygio) (Cymru) 2014(**3**);

(c) rheoliadau 11 i 13 o Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014(**4**);

---

(**1**) O.S. 2024/238 (Cy. 48).
(**2**) O.S. 2013/747 (Cy. 89).
(**3**) O.S. 2014/58 (Cy. 5).
(**4**) O.S. 2014/110 (Cy. 10).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) rheoliad 3 o Reoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2016(**1**);

(e) rheoliadau 17 i 28 o Reoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Adeiladau Ynni a Eithrir) (Cymru) 2018(**2**);

(f) rheoliadau 18 i 20 o Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022(**3**);

(g) Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Arolygwyr Cymeradwy) (Cymru) 2022(**4**);

(h) Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023(**5**);

(i) Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) (Diwygio) (Cymru) 2024(**6**).

(3) Nid yw diwygio adran 51A o Ddeddf 1984 gan adran 46(2) o Ddeddf 2022 yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad cychwynnol y mae rheoliad 3 o Reoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024(**7**) yn gymwys iddo.

(4) Ar ôl y geiriau "hysbysiad cychwynnol" yn rheoliad 11(3) o Reoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024 mewnosoder "sy'n ymwneud yn unig â gwaith adeiladu".

(5) Bydd unrhyw un neu ragor o'r ffurflenni yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau AC a gyflwynir i'r awdurdod lleol cyn 1 Ionawr 2025 yn cael eu prosesu.

(6) Mae'r Rheoliadau AC yn parhau i fod yn gymwys i ffurflenni a gyflwynir i'r awdurdod lleol cyn 1 Ionawr 2025.

(7) Mae rheoliadau 2 i 7 a 9 o'r Rheoliadau AC yn parhau i gael effaith i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddibenion rheoliad 29 o'r Rheoliadau AC.

*Rebecca Evans*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
28 Tachwedd 2024

---

(**1**) O.S. 2016/611 (Cy. 168).
(**2**) O.S. 2018/558 (Cy. 97).
(**3**) O.S. 2022/564 (Cy. 130).
(**4**) O.S. 2022/767 (Cy. 167).
(**5**) O.S. 2023/1304 (Cy. 234).
(**6**) O.S. 2024/244 (Cy. 49).
(**7**) O.S. 2024/207 (Cy. 39).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 1 Rheoliadau 6, 7, 10, 12, 13, 15, 25, 28, 30

## Ffurflenni

## Ffurflen 1(C)

## Adran 47 o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD CYCHWYNNOL**

I: **(1)**

**1.** Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(2)**

**2.** Y cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu mewn perthynas â'r gwaith yw: **(3)**

**3.** Y person sy'n bwriadu cynnal y gwaith yw: **(3)**

**4.** Daw'r dogfennau a ganlyn gyda'r hysbysiad hwn, sef y dogfennau hynny sy'n berthnasol i'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn— **(4)**

(a) yn achos codi neu estyn adeilad, blan i raddfa o ddim llai nag 1:1250 yn dangos ffiniau a lleoliad y safle a phan fo'r gwaith yn cynnwys adeiladu draen neu garthffos breifat newydd ddatganiad—

(i) ynghylch lleoliad bras unrhyw gysylltiad arfaethedig sydd i'w wneud i garthffos, neu

(ii) os nad oes cysylltiad i'w wneud i garthffos, ynghylch y cynigion ar gyfer gollyngiad y draen arfaethedig neu'r garthffos breifat gan gynnwys lleoliad unrhyw danc septig a system driniaeth eilaidd gysylltiedig, neu unrhyw system trin dŵr gwastraff neu unrhyw garthbwll;

(b) datganiad o unrhyw ddeddfiad lleol sy'n berthnasol i'r gwaith, ac o'r camau i'w cymryd i gydymffurfio ag ef.

**5.** Mae **(5)** yn datgan nad oes ganddo ef neu ganddi hi, ac ni fydd ganddo ef neu ganddi hi tra bo'r hysbysiad hwn mewn grym, unrhyw fuddiant ariannol neu broffesiynol **(6)** yn y gwaith a ddisgrifir.

**6.** [Bydd]/[Ni fydd] **(7)** yn ofynnol i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub gan reoliad 8 o Reoliadau 2024.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**7.** [Mae **(5)** yn ymrwymo i ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn rhoi tystysgrif blaniau yn unol ag adran 50 o Ddeddf Adeiladu 1984 neu dystysgrif derfynol yn unol ag adran 51 o Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir uchod.] **(7)**

**8.** [Bydd]/[Ni fydd] **(8)** yn ofynnol i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth gan reoliad 9 o Reoliadau 2024.

**9.** [Mae **(5)** yn ymrwymo i ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn rhoi tystysgrif blaniau yn unol ag adran 50 o Ddeddf Adeiladu 1984 neu dystysgrif derfynol yn unol ag adran 51 o Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir uchod.] **(8)**

**10.** Mae **(5)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau a osodir arno neu arni gan Ran 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a chan reoliad 4 o Reoliadau 2024.

**11.** Mae **(5)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod yn gymeradwywr rheolaeth adeiladu at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a bod y gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn o fewn cwmpas ei gofrestriad neu ei chofrestriad.

**12.** Mae **(5)** yn cadarnhau [bod yr][y bydd yr][na fydd yr] **(9)** adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef yn adeilad GDT.

**13.** [Mae **(5)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi cael cyngor gan **(10)**, arolygydd cofrestredig adeiladu sydd wedi ei gofrestru neu ei chofrestru mewn perthynas â'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn, cyn cyflwyno'r hysbysiad.] **(11)**

**14.** Mae **(5)** yn cadarnhau nad yw unrhyw ran o'r gwaith y mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud ag ef yn waith adeilad risg uwch.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd | Llofnodwyd |
| Ar ran **(6)** | Ar ran **(12)** |
| Dyddiad | Dyddiad |

NODIADAU

**(1)**: Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

**(2)**: Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(3)**: Enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac (os yw ar gael) gyfeiriad e-bost y person sy'n bwriadu cynnal y gwaith, ac os nad y cleient yw'r person hwnnw hefyd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac (os yw ar gael) gyfeiriad e-bost y cleient.

**(4)**: Ni chaiff yr awdurdod lleol wrthod yr hysbysiad hwn ond ar seiliau a ragnodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain wedi eu nodi yn Atodlen 2 i Reoliadau 2024. Maent yn cynnwys methu â darparu dogfennau perthnasol. Felly, rhaid anfon y dogfennau a restrir ym mharagraff 4 o'r hysbysiad sy'n berthnasol i'r gwaith a ddisgrifir uchod gyda'r hysbysiad hwn. Rhaid dileu unrhyw is-baragraff nad yw'n gymwys.

**(5)**: Enw'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

**(6)**: Mae i "buddiant proffesiynol neu ariannol" yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 o Reoliadau 2024.

**(7)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys. Os yw'n ofynnol i'r arolygydd ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub, rhaid gwneud y declarasiwn ym mharagraff 7.

**(8)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys. Os yw'n ofynnol i'r arolygydd ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth, rhaid gwneud y declarasiwn ym mharagraff 9.

**(9)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

**(10)**: Enw'r arolygydd cofrestredig adeiladu.

**(11)**: Dilëwch y datganiad hwn pan fo'r arolygydd cofrestredig adeiladu ei hun yn gymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

**(12)**: Enw'r person sy'n bwriadu cynnal y gwaith.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 2(C)

## Adran 51A o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 (“Rheoliadau 2024”)

**HYSBYSIAD DIWYGIO**

I: **(1)**

**1.** Mae’r hysbysiad hwn yn diwygio’r hysbysiad cychwynnol y mae copi ohono yn cyd-fynd â’r hysbysiad hwn.

**2.** Mae’r hysbysiad hwn yn diwygio’r gwaith yn yr hysbysiad cychwynnol yn y modd a ganlyn: **(2)**

**3.** Daw’r dogfennau a ganlyn gyda’r hysbysiad hwn, sef y dogfennau hynny sy’n berthnasol i’r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn— **(3)**

(a) copi o’r hysbysiad gwreiddiol;

(b) naill ai—

(i) datganiad i’r perwyl bod yr holl blaniau a gyflwynwyd gyda’r hysbysiad gwreiddiol yn parhau yr un fath, neu

(ii) yr holl blaniau diwygiedig, a datganiad i’r perwyl bod unrhyw blaniau nad ydynt wedi eu cynnwys yn parhau yr un fath; **(4)**

(c) yn achos codi neu estyn adeilad, blan i raddfa o ddim llai nag 1:1250 yn dangos ffiniau a lleoliad y safle a (phan fo’r gwaith yn cynnwys adeiladu draen neu garthffos breifat newydd) ddatganiad—

(i) ynghylch lleoliad bras unrhyw gysylltiad arfaethedig sydd i’w wneud i garthffos, neu

(ii) os nad oes cysylltiad i’w wneud i garthffos, ynghylch y cynigion ar gyfer gollyngiad y draen arfaethedig neu’r garthffos breifat gan gynnwys lleoliad unrhyw danc septig a system driniaeth eilaidd gysylltiedig, neu unrhyw system trin dŵr gwastraff neu unrhyw garthbwll;

(d) datganiad o unrhyw ddeddfiad lleol sy’n berthnasol i’r gwaith, ac o’r camau i’w cymryd i gydymffurfio ag ef.

**4.** Mae **(5)** yn datgan nad oes ganddo ef neu ganddi hi, ac ni fydd ganddo ef neu ganddi hi tra bo’r hysbysiad hwn mewn grym, unrhyw fuddiant ariannol neu broffesiynol **(6)** yn y gwaith a ddisgrifir.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**5.** [Mae **(5)** yn cadarnhau ei fod wedi ei fodloni neu ei bod wedi ei bodloni bod planiau sy'n ymwneud â'r gwaith a ddisgrifir uchod wedi eu cyflwyno iddo neu iddi, ac nad ydynt yn ddiffygiol nac yn dangos gwaith a fyddai, pe bai'n cael ei gynnal yn unol â hwy, yn torri unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau adeiladu.] **(7)**

**6.** [Bydd]/[Ni fydd] **(8)** yn ofynnol i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub gan reoliad 8 o Reoliadau 2024.

**7.** [Mae **(5)** yn ymrwymo i ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn rhoi tystysgrif blaniau yn unol ag adran 50 o Ddeddf Adeiladu 1984 neu dystysgrif derfynol yn unol ag adran 51 o Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir uchod.] **(7)**

**8.** [Bydd]/[Ni fydd] yn ofynnol i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu **(9)** ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth gan reoliad 9 o Reoliadau 2024.

**9.** [Mae **(5)** yn ymrwymo i ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn rhoi tystysgrif blaniau yn unol ag adran 50 o Ddeddf Adeiladu 1984 neu dystysgrif derfynol yn unol ag adran 51 o Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir uchod.] **(7)**

**10.** Mae **(5)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau a osodwyd arno neu arni gan Ran 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a chan reoliad 4 o Reoliadau 2024.

**11.** Mae **(5)** cadarnhau ei fod neu ei bod yn gymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a bod y gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn o fewn cwmpas ei gofrestriad neu ei chofrestriad.

**12.** Mae **(5)** yn cadarnhau [bod yr][y bydd yr][nad yw yr][na fydd yr] adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef yn **(4)** adeilad GDT.

**13.** Mae **(5)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi cael cyngor gan **(10)**, arolygydd cofrestredig adeiladu sydd wedi ei gofrestru neu ei chofrestru mewn perthynas â'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn, cyn cyflwyno'r hysbysiad hwn. **(11)**

**14.** Mae **(5)** yn cadarnhau nad yw unrhyw ran o'r gwaith y mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud ag ef yn waith adeilad risg uwch.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd | Llofnodwyd |
| Ar ran **(5)** | Ar ran **(12)** |
| Dyddiad | Dyddiad |

NODIADAU

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**(1)**: Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

**(2)**: Lleoliad a disgrifiad o'r gwaith newydd yn yr hysbysiad diwygio a sut mae'n diwygio'r gwaith a grybwyllir yn yr hysbysiad cychwynnol gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith newydd yn ymwneud ag ef.

**(3)**: Ni chaiff yr awdurdod lleol wrthod yr hysbysiad hwn ond ar seiliau a ragnodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain wedi eu nodi ym mharagraffau 1 – 11 o Atodlen 2 i Reoliadau 2024. Maent yn cynnwys methu â darparu dogfennau perthnasol. Felly, rhaid anfon y dogfennau a restrir ym mharagraff 3 o'r hysbysiad sy'n berthnasol i'r gwaith a ddisgrifir uchod gyda'r hysbysiad hwn. Rhaid dileu unrhyw is-baragraff nad yw'n gymwys.

**(4)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

**(5)**: Enw'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

**(6)**: Mae i "buddiant proffesiynol neu ariannol" yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 o Reoliadau 2024.

**(7)**: Dilëwch y datganiad hwn os nad yw'n gymwys.

**(8)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys. Os yw'n ofynnol i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub, rhaid gwneud y declarasiwn ym mharagraff 7.

**(9)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys. Os yw'n ofynnol i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth, rhaid gwneud y declarasiwn ym mharagraff 9.

**(10)**: Enw'r arolygydd cofrestredig adeiladu.

**(11)**: Dilëwch y datganiad hwn pan fo'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ei hun yn arolygydd cofrestredig adeiladu.

**(12)**: Enw'r person sy'n cynnal y gwaith.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 3(C)

## Adran 50 o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**TYSTYSGRIF BLANIAU**

**1.** Mae'r dystysgrif hon yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(1)**

**2.** Mae **(2)** drwy hyn yn cadarnhau ei fod neu ei bod yn gymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a bod y gwaith a ddisgrifir yn y dystysgrif hon o fewn cwmpas ei gofrestriad neu ei chofrestriad ac mai'r gwaith uchod [yw'r cyfan]/[yw rhan] **(3)** o'r gwaith a ddisgrifir mewn hysbysiad cychwynnol a roddir ganddo neu ganddi ac arno'r dyddiad **(4)**.

**3.** Mae planiau'r gwaith a nodir uchod wedi eu cyflwyno i **(2)** ac mae'n cadarnhau ei fod wedi ei fodloni neu ei bod wedi ei bodloni nad yw'r planiau yn ddiffygiol nac yn dangos y byddai'r gwaith a gynhelir yn unol â hwy yn torri unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau adeiladu.

**4.** Mae'r planiau y mae'r dystysgrif hon yn ymwneud â hwy yn dwyn y dyddiad a'r cyfeirnod a ganlyn: **(5)**

**5.** Mae **(2)** yn datgan nad oes ganddo ef neu ganddi hi, ac ni fydd ganddo ef neu ganddi hi tra bo'r hysbysiad hwn mewn grym, unrhyw fuddiant ariannol neu broffesiynol **(6)** yn y gwaith a ddisgrifir.

**6.** [Mae **(2)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau 2024.] **(7)**

**7.** [Mae **(2)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau 2024.] **(7)**

**8.** Mae **(2)** yn cadarnhau [bod yr][y bydd yr][nad yw yr][na fydd yr] **(3)** adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef yn adeilad GDT.

**9.** [Mae **(2)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi cael cyngor gan **(8)**, arolygydd cofrestredig adeiladu sydd wedi ei gofrestru neu ei chofrestru mewn perthynas â'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn, cyn cyflwyno'r hysbysiad hwn.] **(9)**

**10.** Mae **(2)** yn cadarnhau nad yw unrhyw ran o'r gwaith y mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud ag ef yn waith adeilad risg uwch.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Llofnodwyd

Ar ran **(2)**

Dyddiad

NODIADAU

**(1)**: Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(2)**: Enw'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

**(3)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

**(4)**: Rhowch y dyddiad.

**(5)**: Rhowch y dyddiad a'r cyfeirnod.

**(6)**: Mae i "buddiant proffesiynol neu ariannol" yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 o Reoliadau 2024.

**(7)**: Dilëwch y datganiad hwn os nad yw'n gymwys.

**(8):** Enw'r arolygydd cofrestredig adeiladu.

**(9):** Dilëwch y datganiad hwn pan fo'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ei hun yn arolygydd cofrestredig adeiladu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 4(C)

## Adrannau 47 a 50 o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD CYCHWYNNOL A THYSTYSGRIF BLANIAU CYFUNOL**

I: **(1)**

**1.** Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(2)**

**2.** Y cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu mewn perthynas â'r gwaith yw: **(3)**

**3.** Y person sy'n bwriadu cynnal y gwaith yw: **(3)**

**4.** Daw'r dogfennau a ganlyn gyda'r hysbysiad hwn, sef y dogfennau hynny sy'n berthnasol i'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn— **(4)**

(a) yn achos codi neu estyn adeilad, blan i raddfa o ddim llai nag 1:1250 yn dangos ffiniau a lleoliad y safle a phan fo'r gwaith yn cynnwys adeiladu draen neu garthffos breifat newydd, ddatganiad—

(i) ynghylch lleoliad bras unrhyw gysylltiad arfaethedig sydd i'w wneud i garthffos, neu

(ii) os nad oes cysylltiad i'w wneud i garthffos, ynghylch y cynigion ar gyfer gollyngiad y draen arfaethedig neu'r garthffos breifat, gan gynnwys lleoliad unrhyw danc septig a system driniaeth eilaidd gysylltiedig, neu unrhyw system trin dŵr gwastraff neu unrhyw garthbwll;

(b) datganiad o unrhyw ddeddfiad lleol sy'n berthnasol i'r gwaith, ac o'r camau i'w cymryd i gydymffurfio ag ef.

**5.** Mae **(5)** yn datgan nad oes ganddo ef neu ganddi hi, ac ni fydd ganddo ef neu ganddi hi tra bo'r hysbysiad hwn mewn grym, unrhyw fuddiant ariannol neu broffesiynol **(6)** yn y gwaith a ddisgrifir.

**6.** Mae **(5)** yn cadarnhau ei fod wedi ei fodloni neu ei bod wedi ei bodloni bod planiau sy'n ymwneud â'r gwaith a ddisgrifir uchod wedi eu cyflwyno iddo neu iddi, ac nad ydynt yn ddiffygiol nac yn dangos gwaith a fyddai, pe bai'n cael ei gynnal yn unol â hwy, yn torri unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau adeiladu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**7.** Mae'r planiau y mae'r dystysgrif hon yn ymwneud â hwy yn dwyn y dyddiad a'r cyfeirnod a ganlyn. **(7)**

**8.** [Mae'n]/[Nid yw'n] **(8)** ofynnol i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub gan reoliad 8 o Reoliadau 2024.

**9.** [Mae **(5)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau 2024.] **(8)**

**10.** [Mae **(5)** yn ymrwymo i ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn rhoi tystysgrif derfynol yn unol ag adran 51 o Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir uchod.] **(8)**

**11.** [Mae'n]/[Nid yw'n] **(9)** ofynnol i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth gan reoliad 9 o Reoliadau 2024.

**12.** [Mae **(5)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau 2024.] **(9)**

**13.** [Mae **(5)** yn ymrwymo i ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn rhoi tystysgrif derfynol yn unol ag adran 51 o Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir uchod.] **(9)**

**14.** Mae **(5)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau a osodwyd arno neu arni gan Ran 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a chan reoliad 4 o Reoliadau 2024.

**15.** Mae **(5)** cadarnhau ei fod neu ei bod yn gymeradwywr rheolaeth adeiladu at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a bod y gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn o fewn cwmpas ei gofrestriad neu ei chofrestriad.

**16.** Mae **(5)** yn cadarnhau [bod yr][y bydd yr][nad yw yr][na fydd yr] **(10)** adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef yn adeilad GDT.

**17.** [Mae **(6)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi cael cyngor gan **(11)**, arolygydd cofrestredig adeiladu sydd wedi ei gofrestru mewn perthynas â'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn, cyn cyflwyno'r hysbysiad hwn.] **(12)**

**18.** Mae **(6)** yn cadarnhau nad yw unrhyw ran o'r gwaith y mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud ag ef yn waith adeilad risg uwch.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd | Llofnodwyd |
| Ar ran **(6)** | Ar ran **(13)** |
| Dyddiad | Dyddiad |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

NODIADAU

**(1)**: Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

**(2)**: Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(3)**: Enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac (os yw ar gael) cyfeiriad e-bost y person sy'n bwriadu cynnal y gwaith, ac os nad y cleient yw'r person hwnnw hefyd enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac (os yw ar gael) cyfeiriad e-bost y cleient.

**(4)**: Ni chaiff yr awdurdod lleol wrthod yr hysbysiad hwn ond ar seiliau a ragnodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain wedi eu nodi yn Atodlenni 2 a 3 i Reoliadau 2024. Maent yn cynnwys methu â darparu dogfennau perthnasol. Felly, rhaid anfon y dogfennau a restrir ym mharagraff 4 o'r hysbysiad sy'n berthnasol i'r gwaith a ddisgrifir uchod gyda'r hysbysiad hwn. Rhaid dileu unrhyw baragraff dilynol nad yw'n berthnasol.

**(5)**: Enw'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

**(6)**: Mae i "buddiant proffesiynol neu ariannol" yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 o Reoliadau 2024.

**(7)**: Rhowch y dyddiad a'r cyfeirnod.

**(8)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys. Os yw'n ofynnol i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub, rhaid gwneud y declarasiynau ym mharagraffau 9 neu 10.

**(9)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys. Os yw'n ofynnol i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth, rhaid gwneud y declarasiynau ym mharagraffau 12 neu 13.

**(10)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

**(11)**: Enw'r arolygydd cofrestredig adeiladu.

**(12)**: Dilëwch y datganiad hwn pan fo'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ei hun yn arolygydd cofrestredig adeiladu.

**(13)**: Enw'r person sy'n bwriadu cynnal y gwaith.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 5(C)

## Adran 51 o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**TYSTYSGRIF DERFYNOL**

**1.** Mae'r dystysgrif hon yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(1)**

**2.** Mae **(2)** yn gymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu at ddiben Rhan 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 ac mae'r gwaith a ddisgrifir yn y dystysgrif hon o fewn cwmpas ei gofrestriad neu ei chofrestriad ac mai'r gwaith uchod [yw'r cyfan]/[yw rhan] **(3)** o'r gwaith a ddisgrifir mewn hysbysiad cychwynnol a roddir ganddo neu ganddi ac arno'r dyddiad **(4)** [ac a ddiwygiwyd ar **(4)**.] **(5)**

**3.** Yn ddarostyngedig i'r hyn a ddywedir ym mharagraff 4 isod, mae'r gwaith a ddisgrifir uchod wedi ei gwblhau ac mae **(2)** wedi cyflawni'r swyddogaethau a neilltuwyd iddo neu iddi gan reoliad 4 o Reoliadau 2024.

**4.** [Mae tystysgrifau terfynol bellach wedi eu dyroddi mewn cysylltiad â'r holl waith a ddisgrifir yn yr hysbysiad cychwynnol y cyfeirir ato ym mharagraff 2 uchod.] **(5)**

**5.** [Mae **(2)** yn cadarnhau bod y person sy'n cynnal y gwaith wedi ei hysbysu i'r perwyl bod yr wybodaeth diogelwch tân wedi ei rhoi i'r person cyfrifol fel sy'n ofynnol gan reoliad 38 o Reoliadau Adeiladu 2010.] **(5)**

**6.** [Mae **(2)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau 2024.] **(5)**

**7.** [Mae **(2)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau 2024.] **(5)**

**8.** Ni fu gan **(2)** unrhyw fuddiant proffesiynol nac ariannol yn y gwaith a ddisgrifir uchod ers rhoi'r hysbysiad cychwynnol a ddisgrifir ym mharagraff 2 uchod **(6)**.

**9.** Mae **(2)** yn cadarnhau nad yw unrhyw ran o'r gwaith y mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud ag ef yn waith adeilad risg uwch.

**10.** [Mae **(2)** yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi cael cyngor gan **(7)**, arolygydd cofrestredig adeiladu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

sydd wedi ei gofrestru mewn perthynas â’r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn, cyn cyflwyno’r hysbysiad hwn.] **(8)**

**11.** Mae’r dystysgrif hon yn dystiolaeth (ond nid yn dystiolaeth derfynol) y cydymffurfiwyd â’r gofynion a nodwyd yn y dystysgrif.

Llofnodwyd

Ar ran **(2)**

Dyddiad

NODIADAU

**(1)**: Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae’r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(2)**: Enw’r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

**(3)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw’n gymwys.

**(4)**: Rhowch y dyddiad.

**(5)**: Dilëwch y datganiad hwn os nad yw’n gymwys.

**(6)**: Mae i “buddiant proffesiynol neu ariannol” yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 o Reoliadau 2010.

**(7)**: Enw’r arolygydd cofrestredig adeiladu.

**(8)**: Dilëwch y datganiad hwn pan fo’r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu ei hun yn arolygydd cofrestredig adeiladu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 7(C)

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD O WRTHOD HYSBYSIAD CYCHWYNNOL, HYSBYSIAD DIWYGIO, TYSTYSGRIF BLANIAU NEU DYSTYSGRIF DERFYNOL**

I: **(1)**

**1.** Mae gennyf awdurdod i lofnodi'r hysbysiad hwn gan: **(2)**

**2.** Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â'r [hysbysiad cychwynnol] / [hysbysiad diwygio] / [dystysgrif blaniau] / [dystysgrif derfynol] **(3)** a ddaeth i law ar **(4)**.

**3.** Mae'r awdurdod lleol drwy hyn yn gwrthod [yr hysbysiad cychwynnol / yr hysbysiad diwygio / y dystysgrif blaniau / y dystysgrif derfynol] **(3)** ar y seiliau a ganlyn **(5)**.

**4.** Caiff person a dramgwyddir gan y gwrthodiad hwn apelio o dan adran 55(1) o Ddeddf Adeiladu 1984. Rhaid apelio o fewn 21 diwrnod gan ddechrau â'r diwrnod drannoeth y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn (gan anwybyddu Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc).

Llofnod

Dyddiad

NODIADAU

**(1)**: Rhowch enw a chyfeiriad y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhaid ei roi i'r cymeradwywr a gyflwynodd yr hysbysiad neu'r dystysgrif ac, yn achos hysbysiad cychwynnol neu hysbysiad diwygio, hefyd i'r person sy'n bwriadu cynnal y gwaith (ac os nad y cleient yw'r person hwnnw, hefyd i'r cleient).

**(2)**: Rhowch enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

**(3)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

**(4)**: Rhowch y dyddiad y daeth yr hysbysiad neu'r dystysgrif i law'r awdurdod lleol.

**(5)**: Datganwch ba un o'r seiliau a nodir yn Atodlen 2, 3 neu, yn ôl y digwydd, 4 i Reoliadau 2024 y dibynnir arnynt i wrthod yr hysbysiad neu'r dystysgrif.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 8(C)

## Adran 51C o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD O NEWID PERSON SY'N CYNNAL Y GWAITH**

I: **(1)**

**1.** Mae'r hysbysiad hwn yn cynnig newid i'r person sy'n cynnal y gwaith mewn perthynas â'r hysbysiad cychwynnol y mae copi ohono yn cyd-fynd â'r hysbysiad hwn.

**2.** Mae **(2)** yn gymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Adeiladu 1984, a rhoddodd yr hysbysiad cychwynnol y cyfeirir ato ym mharagraff 1.

**3.** Rydym ni **(2)** a **(3)** yn cynnig y dylai'r gwaith y mae'r hysbysiad cychwynnol yn ymwneud ag ef gael ei gynnal gan **(4)**.

Llofnod Dyddiad

(Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu)

Llofnod Dyddiad

(Person sy'n bwriadu cynnal y gwaith)

NODIADAU

**(1)**: Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

**(2)**: Enw'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

**(3)**: Enw'r person sy'n bwriadu cynnal y gwaith.

**(4)**: Enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac (os yw ar gael) gyfeiriad e-bost y person sy'n bwriadu cynnal y gwaith, ac os nad y cleient yw'r person hwnnw hefyd enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac (os yw ar gael) gyfeiriad e-bost y cleient.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 9(C)

## Adran 52(1)(a), (b), (c), (d), (e) neu (f) o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 (“Rheoliadau 2024”)

**HYSBYSIAD CANSLO GAN GYMERADWYWR COFRESTREDIG RHEOLAETH ADEILADU**

I: **(1)**

**1.** Mae’r hysbysiad hwn yn ymwneud â’r gwaith a ganlyn: **(2)**

**2.** Rhoddwyd hysbysiad cychwynnol dyddiedig **(3)** a phennwyd y gwaith uchod ynddo.

**3.** Mae **(4)** drwy hyn yn cadarnhau ei fod neu ei bod yn gymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad â’r gwaith hwnnw.

**4.** Mae **(4)** drwy hyn yn canslo’r hysbysiad cychwynnol.

**5.** [Mae **(4)** drwy hyn yn cadarnhau ei fod neu ei bod wedi rhoi hysbysiad yn unol â rheoliad 16 o Reoliadau 2024 a bod derbynnydd yr hysbysiad wedi methu ag unioni’r toriad o fewn y cyfnod rhagnodedig. Y toriad yw:] **(5)**

Llofnod

Ar ran **(4)**

Dyddiad

NODIADAU

**(1)**: Rhowch enw a chyfeiriad y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhaid ei roi i’r awdurdod lleol a’r person sy’n cynnal neu’n bwriadu cynnal y gwaith.

**(2)**: Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd yr adeilad y mae’r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(3)**: Rhowch y dyddiad.

**(4)**: Enw’r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

**(5)**: Dilëwch y datganiad hwn os nad yw’n gymwys. Os yw’n gymwys, nodwch ddarpariaeth(au) y rheoliadau adeiladu (gan gynnwys y gofyniad penodol) a dorrir.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 10(C)

## Adran 52(3) o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD CANSLO GAN BERSON SY'N CYNNAL Y GWAITH**

I: **(1)**

**1.** Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(2)**

**2.** Rhoddwyd hysbysiad cychwynnol dyddiedig **(3)** a phennwyd y gwaith uchod ynddo.

**3.** Mae **(4)** drwy hyn yn cadarnhau [mai ef/hi yw'r person]/[mai nhw yw'r personau] [sy'n cynnal]/[sy'n bwriadu cynnal] **(5)** y gwaith.

**4.** Mae **(4)** drwy hyn yn canslo'r hysbysiad cychwynnol.

Llofnod

Ar ran **(4)**

Dyddiad

NODIADAU

**(1):** Rhowch enw a chyfeiriad y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhaid ei roi i'r awdurdod lleol ac, os yw'n ymarferol, i'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

**(2):** Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd yr adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(3):** Rhowch y dyddiad.

**(4):** Enw'r person sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal y gwaith.

**(5):** Dilëwch fel y bo'n briodol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 11(C)

## Adran 52(5A) o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD CANSLO GAN AWDURDOD LLEOL**

I: **(1)**

**1.** Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(2)**

**2.** Mae gennyf awdurdod i lofnodi'r hysbysiad hwn gan yr awdurdod lleol a ganlyn: **(3)**

**3.** Derbyniodd yr awdurdod lleol hysbysiad cychwynnol ar **(4)** a phennwyd y gwaith a ddisgrifir uchod ynddo.

**4.** [Rhoddodd yr awdurdod lleol hysbysiad i'r person a ddangosir yn yr hysbysiad cychwynnol fel y cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu o dan adran 52(7) o Ddeddf Adeiladu 1984, yn unol â rheoliad 15(4) o Reoliadau 2024, [ac mae'r awdurdod wedi rhoi sylw i'r sylwadau a ddaeth i law]/[ac nid oes unrhyw sylwadau wedi dod i law'r awdurdod] **(5)**]**(6)**.

**5.** Mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol fod amod o dan adran 52(5B) o Ddeddf Adeiladu 1984, sef [adran 52(5B)[(a)][(b)][(c)][(d)]]**(5)**, wedi ei fodloni.

**6.** Mae'r awdurdod lleol drwy hyn yn canslo'r hysbysiad cychwynnol.

Llofnod

Dyddiad

NODIADAU

**(1):** Rhowch enw a chyfeiriad y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhaid ei roi i'r person a ddangosir ar yr hysbysiad cychwynnol fel y cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu a'r person a ddangosir ar yr hysbysiad cychwynnol fel y person sy'n bwriadu cynnal y gwaith.

**(2):** Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(3):** Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

**(4):** Rhowch y dyddiad.

**(5):** Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**(6):** Dilëwch y datganiad hwn os yw'r canslo yn seiliedig ar amod yn adran 52(5B)(c) neu (d) o Ddeddf Adeiladu 1984.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 12(C)

## Adran 52(7) o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD O'R BWRIAD I GANSLO**

**I: (1)**

**1.** Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(2)**

**2.** Mae gennyf awdurdod i lofnodi'r hysbysiad hwn gan yr awdurdod lleol a ganlyn: **(3)**

**3.** Derbyniodd yr awdurdod lleol hysbysiad cychwynnol ar **(4)** a phennwyd y gwaith uchod ynddo.

**4.** Mae'r awdurdod lleol yn cynnig canslo'r hysbysiad cychwynnol o dan adran 52(5A) o Ddeddf Adeiladu 1984 yn seiliedig ar amod yn adran 52(5B)[(a)][(b)]**(5)** o'r Ddeddf honno gan yr ymddengys fod yr amod hwnnw wedi ei fodloni.

**5.** Os ydych yn dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau ar y bwriad i ganslo, rhaid i chi eu cyflwyno cyn: **(6)**.

Llofnod

Dyddiad

NODIADAU

**(1):** Rhowch enw a chyfeiriad y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhaid ei roi i'r awdurdod rheoli adeiladu cofrestredig.

**(2):** Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(3):** Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

**(4):** Rhowch y dyddiad.

**(5):** Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

**(6):** Rhowch y dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu canslo'r hysbysiad cychwynnol arno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 13(C)

## Adran 52A(1) o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD CANSLO GAN GYMERADWYWR COFRESTREDIG RHEOLAETH ADEILADU WAITH SYDD WEDI DOD YN WAITH ADEILAD RISG UWCH**

I: **(1)**

**1.** Rhoddwyd hysbysiad cychwynnol dyddiedig **(2)** mewn perthynas â'r gwaith.

**2.** Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud [â'r rhan a ganlyn o'r gwaith]/[â'r holl waith] **(3)** hwnnw: **(4)**

**3.** Fi yw'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu mewn perthynas â'r hysbysiad cychwynnol y cyfeirir ato ym mharagraff 1.

**4.** Rwy'n canslo drwy hyn [y rhan o'r hysbysiad cychwynnol sy'n ymwneud â gwaith adeilad risg uwch y cyfeirir ato ym mharagraff 2]/[yr hysbysiad cychwynnol] **(3)**.

Llofnod

Dyddiad

NODIADAU

**(1)**: Rhowch enw a chyfeiriad y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhaid ei roi i'r awdurdod lleol a'r person sy'n cynnal neu'n bwriadu cynnal y gwaith (ac os nad y cleient yw'r person hwnnw, hefyd i'r cleient).

**(2)**: Rhowch y dyddiad.

**(3)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

**(4)**: Lleoliad a disgrifiad o'r gwaith adeilad risg uwch.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 14(C)

## Adran 52A(2) o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD CANSLO GAN BERSON SY'N BWRIADU CYNNAL Y GWAITH PAN FO GWAITH YN DOD YN WAITH ADEILAD RISG UWCH**

I: **(1)**

**1.** Rhoddwyd hysbysiad cychwynnol dyddiedig **(2)** mewn perthynas â'r gwaith.

**2.** Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud [â'r rhan a ganlyn o'r gwaith]/[â'r holl waith] **(3)** hwnnw: **(4)**

**3.** Fi yw'r person sy'n [cynnal]/[bwriadu cynnal] **(3)** y gwaith o dan yr hysbysiad cychwynnol y cyfeirir ato ym mharagraff 1.

**4.** Rwy'n canslo drwy hyn [y rhan o'r hysbysiad cychwynnol sy'n ymwneud â gwaith adeilad risg uwch y cyfeirir ato ym mharagraff 2]/[yr hysbysiad cychwynnol] **(3)**.

Llofnod

Dyddiad

NODIADAU

**(1)**: Rhowch enw a chyfeiriad y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhaid ei roi i'r awdurdod lleol a'r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu (ac os nad y person sy'n cynnal y gwaith yw'r cleient, hefyd i'r cleient).

**(2)**: Rhowch y dyddiad.

**(3)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

**(4)**: Lleoliad a disgrifiad o'r gwaith adeilad risg uwch.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 15(C)

## Adran 52A(4) o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 (“Rheoliadau 2024”)

**HYSBYSIAD CANSLO GAN AWDURDOD LLEOL WAITH SYDD WEDI DOD YN WAITH ADEILAD RISG UWCH**

I: **(1)**

**1.** Derbyniodd yr awdurdod lleol hysbysiad cychwynnol ar **(2)** mewn perthynas â’r gwaith.

**2.** Mae’r hysbysiad hwn yn ymwneud [â’r rhan a ganlyn o’r gwaith]/[â’r holl waith] **(3)** hwnnw: **(4)**

**3.** Mae gennyf awdurdod i lofnodi’r hysbysiad hwn gan yr awdurdod lleol a ganlyn **(5)**:

**4.** Mae’n ymddangos i’r awdurdod lleol fod y gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff 2 wedi dod yn waith adeilad risg uwch ac mae’r awdurdod lleol drwy hyn yn canslo [y rhan o’r hysbysiad cychwynnol sy’n ymwneud â gwaith adeilad risg uwch y cyfeirir ato ym mharagraff 2]/[yr hysbysiad cychwynnol] **(3)**.

Llofnod

Dyddiad

NODIADAU

**(1)**: Rhowch enw a chyfeiriad y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhaid ei roi i’r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu a’r person a ddangosir yn yr hysbysiad cychwynnol fel y person sy’n bwriadu cynnal y gwaith (ac os nad y cleient yw’r person hwnnw, hefyd i’r cleient).

**(2)**: Rhowch y dyddiad.

**(3)**: Dilëwch pa un bynnag nad yw’n gymwys.

**(4)**: Lleoliad a disgrifiad o’r gwaith adeilad risg uwch.

**(5)**: Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 16(C)

## Adran 53D(2) o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 (“Rheoliadau 2024”)

**HYSBYSIAD CANSLO GAN AWDURDOD LLEOL WAITH PAN NA RODDIR TYSTYSGRIF DROSGLWYDDO NAC ADRODDIAD TROSGLWYDDO**

I: **(1)**

**1.** Derbyniodd yr awdurdod lleol hysbysiad cychwynnol ar **(2)** mewn perthynas â’r gwaith.

**2.** Mae gennyf awdurdod i lofnodi’r hysbysiad hwn gan yr awdurdod lleol a ganlyn: **(3)**

**3.** [Mae’r awdurdod lleol wedi gwrthod y dystysgrif drosglwyddo a’r adroddiad trosglwyddo]/[Mae’n ymddangos i’r awdurdod lleol nad oes tystysgrif drosglwyddo nac adroddiad trosglwyddo wedi eu rhoi] **(4)** mewn perthynas â’r hysbysiad cychwynnol y cyfeirir ato ym mharagraff 1 ac mae’r awdurdod lleol drwy hyn yn canslo’r hysbysiad cychwynnol.

Llofnod

Dyddiad

NODIADAU

**(1):** Rhowch enw a chyfeiriad y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhaid ei roi i’r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu a’r person a ddangosir yn yr hysbysiad cychwynnol fel y person sy’n bwriadu cynnal y gwaith.

**(2):** Rhowch y dyddiad.

**(3):** Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

**(4):** Dilëwch pa un bynnag nad yw’n gymwys.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen 17(C)

## Adran 53D(3) o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 (“Rheoliadau 2024”)

**HYSBYSIAD CANSLO GAN BERSON SY’N CYNNAL Y GWAITH**

I: **(1)**

**1.** Mae’r hysbysiad hwn yn ymwneud â’r gwaith a ganlyn: **(2)**

**2.** Rhoddwyd hysbysiad cychwynnol dyddiedig **(3)** a phennwyd y gwaith uchod ynddo.

**3.** Mae **(4)** drwy hyn yn cadarnhau mai ef neu hi yw’r person [sy’n cynnal]/[sy’n bwriadu cynnal] **(5)** y gwaith.

**4.** Mae **(4)** drwy hyn yn canslo’r hysbysiad cychwynnol.

Llofnod

Ar ran **(4)**

Dyddiad

NODIADAU

**(1):** Rhowch enw a chyfeiriad y person y rhoddir yr hysbysiad iddo. Rhaid ei roi i’r awdurdod lleol ac, os yw’n ymarferol, i’r cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

**(2):** Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd yr adeilad y mae’r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(3):** Rhowch y dyddiad.

**(4):** Enw’r person sy’n cynnal neu’n bwriadu cynnal y gwaith.

**(5):** Dilëwch fel y bo’n briodol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen PB1(C)

## Adran 54 o Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD CORFF CYHOEDDUS**

I: **(1)**

**1.** Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(2)**

**2.** Mae **(3)** wedi ei gymeradwyo o dan Ran 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 ac yn bwriadu cynnal, mewn perthynas ag adeilad sy'n eiddo iddo, y gwaith a ddisgrifir uchod y gellir ei oruchwylio'n ddigonol gan ei weision neu ei asiantau ei hun.

**3.** Daw'r dogfennau a ganlyn gyda'r hysbysiad hwn, sef y dogfennau hynny sy'n berthnasol i'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn— **(4)**

(a) yn achos codi neu estyn adeilad, blan i raddfa o ddim llai nag 1:1250 yn dangos ffiniau a lleoliad y safle a phan fo'r gwaith yn cynnwys adeiladu draen neu garthffos breifat newydd ddatganiad—

(i) ynghylch lleoliad bras unrhyw gysylltiad arfaethedig sydd i'w wneud i garthffos, neu

(ii) os nad oes cysylltiad i'w wneud i garthffos, ynghylch y cynigion ar gyfer gollyngiad y draen arfaethedig neu'r garthffos breifat, gan gynnwys lleoliad unrhyw danc septig a system driniaeth eilaidd gysylltiedig, unrhyw system trin dŵr gwastraff neu unrhyw garthbwll;

(b) datganiad o unrhyw ddeddfiad lleol sy'n berthnasol i'r gwaith, ac o'r camau i'w cymryd i gydymffurfio ag ef.

**4.** [Bydd]/[Ni fydd] yn ofynnol i'r corff cyhoeddus **(5)** ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub gan reoliad 26 o Reoliadau 2024.

**5.** [Mae **(3)** yn ymrwymo i ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn rhoi tystysgrif blaniau corff cyhoeddus yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Adeiladu 1984 neu dystysgrif derfynol corff cyhoeddus yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 4 i Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir uchod **(7)**.]

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**6.** [Bydd]/[Ni fydd] **(6)** yn ofynnol i'r corff cyhoeddus ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth gan reoliad 27 o Reoliadau 2024.

**7.** [Mae **(3)** yn ymrwymo i ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn rhoi tystysgrif blaniau corff cyhoeddus yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Adeiladu 1984 neu dystysgrif derfynol corff cyhoeddus yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 4 i Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir uchod.] **(7)**

**8.** Llofnod

Dyddiad

**NODIADAU**

**(1)** Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

**(2)** Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(3)** Enw a chyfeiriad y corff cyhoeddus.

**(4)** Ni chaiff yr awdurdod lleol wrthod yr hysbysiad hwn ond ar seiliau a ragnodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain wedi eu nodi yn Atodlen 6 i Reoliadau 2024. Maent yn cynnwys methu â darparu dogfennau perthnasol. Felly, rhaid anfon y dogfennau a restrir ym mharagraff 3 sy'n berthnasol i'r gwaith a ddisgrifir uchod gyda'r hysbysiad hwn. Rhaid dileu unrhyw is-baragraff nad yw'n gymwys.

**(5)** Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys. Os yw'n ofynnol i'r corff cyhoeddus ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub, rhaid gwneud y declarasiwn ym mharagraff 5.

**(6)** Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys. Os yw'n ofynnol i'r corff cyhoeddus ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth, rhaid gwneud y declarasiwn ym mharagraff 7.

**(7)** Dilëwch y datganiad hwn os nad yw'n gymwys.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen PB2(C)

## Paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**TYSTYSGRIF BLANIAU CORFF CYHOEDDUS**

**1.** Mae'r dystysgrif hon yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(1)**

**2.** Mae **(2)** yn gorff cyhoeddus cymeradwy o dan Ran 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a'r gwaith uchod yw [y cyfan]/[rhan] **(3)** o'r gwaith a ddisgrifir mewn hysbysiad corff cyhoeddus a roddir gan y corff ac arno'r dyddiad **(4).**

**3.** Mae planiau'r gwaith a ddisgrifir uchod wedi eu harolygu gan was neu asiant y corff cyhoeddus sy'n gymwys i asesu'r planiau ac mae'r person hwnnw yn fodlon nad yw'r planiau yn ddiffygiol nac yn dangos gwaith a fyddai, pe bai'n cael ei gynnal yn unol â hwy, yn torri unrhyw ddarpariaethau yn y rheoliadau adeiladu.

**4.** [Ymgynghorwyd â'r awdurdod tân ac achub yn unol â rheoliad 26 o Reoliadau 2024.] **(5)**

**5.** [Ymgynghorwyd â'r ymgymerwr carthffosiaeth yn unol â rheoliad 27 o Reoliadau 2024.] **(5)**

**6.** Mae'r planiau a arolygwyd yn dwyn y dyddiad a'r cyfeirnod a ganlyn: **(6)**

**7.** Llofnod

Dyddiad

**NODIADAU**

**(1)** Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(2)** Enw a chyfeiriad y corff cyhoeddus.

**(3)** Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

**(4)** Rhowch y dyddiad.

**(5)** Dilëwch y datganiad hwn os nad yw'n gymwys.

**(6)** Rhowch y dyddiad a'r cyfeirnod.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen PB3(C)

## Paragraff 2(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**HYSBYSIAD CORFF CYHOEDDUS A THYSTYSGRIF BLANIAU CYFUNOL**

**1.** I: **(1)**

**2.** Mae'r dystysgrif hon yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(2)**

**3.** Mae **(3)** yn gorff cyhoeddus cymeradwy o dan Ran 2 o Ddeddf Adeiladu 1984.

**4.** Daw'r dogfennau a ganlyn gyda'r hysbysiad hwn, sef y dogfennau hynny sy'n berthnasol i'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn— **(4)**.

(a) yn achos codi neu estyn adeilad, blan i raddfa o ddim llai nag 1:1250 yn dangos ffiniau a lleoliad y safle a phan fo'r gwaith yn cynnwys adeiladu draen neu garthffos breifat newydd ddatganiad—

(i) ynghylch lleoliad bras unrhyw gysylltiad arfaethedig sydd i'w wneud i garthffos, neu

(ii) os nad oes cysylltiad i'w wneud i garthffos, ynghylch y cynigion ar gyfer gollyngiad y draen arfaethedig neu'r garthffos breifat, gan gynnwys lleoliad unrhyw danc septig a system driniaeth eilaidd gysylltiedig, unrhyw system trin dŵr gwastraff neu unrhyw garthbwll;

(b) datganiad o unrhyw ddeddfiad lleol sy'n berthnasol i'r gwaith, ac o'r camau i'w cymryd i gydymffurfio ag ef.

**5.** Mae planiau'r gwaith a ddisgrifir uchod wedi eu harolygu gan was neu asiant y corff cyhoeddus sy'n gymwys i asesu'r planiau ac mae'r person hwnnw yn fodlon nad yw'r planiau yn ddiffygiol nac yn dangos gwaith a fyddai, pe bai'n cael ei gynnal yn unol â hwy, yn torri unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau adeiladu.

**6.** [Ymgynghorwyd â'r awdurdod tân ac achub yn unol â rheoliad 26 o Reoliadau 2024.] **(5)**

**7.** [Mae'r corff yn ymrwymo i ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn rhoi tystysgrif derfynol yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 4 i Ddeddf Adeiladu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

1984 mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifir uchod.] **(5)**

**8.** [Ymgynghorwyd â'r ymgymerwr carthffosiaeth yn unol â rheoliad 27 o Reoliadau 2024.] **(5)**

**9.** [Mae'r corff yn ymrwymo i ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn rhoi tystysgrif derfynol yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 4 i Ddeddf Adeiladu 1984 mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifir uchod.] **(5)**

**10.** Mae'r planiau a arolygwyd yn dwyn y dyddiad a'r cyfeirnod a ganlyn: **(6)**

**11.** Llofnod

Dyddiad

**NODIADAU**

**(1)** Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol.

**(2)** Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(3)** Enw a chyfeiriad y corff cyhoeddus.

**(4)** Ni chaiff yr awdurdod lleol wrthod yr hysbysiad hwn ond ar seiliau a ragnodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain wedi eu nodi yn Atodlenni 6 a 7 i Reoliadau 2024. Maent yn cynnwys methu â darparu dogfennau perthnasol. Felly, rhaid anfon y dogfennau a restrir ym mharagraff 3 sy'n berthnasol i'r gwaith a ddisgrifir uchod gyda'r hysbysiad hwn. Rhaid dileu unrhyw is-baragraff nad yw'n gymwys.

**(5)** Dilëwch y datganiad hwn os nad yw'n gymwys.

**(6)** Rhowch y dyddiad a'r cyfeirnod.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# Ffurflen PB4(C)

## Paragraff 3 o Atodlen 4 i Ddeddf Adeiladu 1984

## Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024")

**TYSTYSGRIF DERFYNOL CORFF CYHOEDDUS**

**1.** Mae'r dystysgrif hon yn ymwneud â'r gwaith a ganlyn: **(1)**

**2.** Y gwaith a ddisgrifir uchod yw [y cyfan]/[rhan] **(2)** o'r gwaith a ddisgrifir mewn hysbysiad corff cyhoeddus a roddir gan **(3)** ar **(4)**. Yn ddarostyngedig i'r hyn a ddywedir ym mharagraff 3 isod, goruchwyliwyd y gwaith gan was neu asiant **(3)** i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion sylweddol hynny o reoliadau adeiladu sy'n gymwys iddo.

**3.** [Mae'r gwaith y mae'r dystysgrif hon yn ymwneud ag ef yn cynnwys mewnosod deunydd inswleiddio i mewn i wal geudod ac [mae hyn wedi]/[nid yw hyn wedi] **(2)** ei gynnal.] **(5)**

**4.** [Nid yw tystysgrif derfynol corff cyhoeddus wedi ei dyroddi mewn cysylltiad â'r holl waith a bennir yn hysbysiad y corff cyhoeddus y cyfeirir ato ym mharagraff 2.] **(5)**

**5.** [Ymgynghorwyd â'r awdurdod tân ac achub yn unol â rheoliad 26 o Reoliadau 2024.] **(5)**

**6.** [Ymgynghorwyd â'r ymgymerwr carthffosiaeth yn unol â rheoliad 27 o Reoliadau 2024.] **(5)**

**7.** Llofnod

Dyddiad

**NODIADAU**

**(1)** Lleoliad y gwaith a disgrifiad ohono, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef.

**(2)** Dilëwch pa un bynnag nad yw'n gymwys.

**(3)** Rhowch enw'r corff cyhoeddus.

**(4)** Rhowch y dyddiad.

**(5)** Dilëwch y datganiad hwn os nad yw'n gymwys.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## ATODLEN 2 Rheoliadau 6, 7 a 10

## Y seiliau dros wrthod hysbysiad cychwynnol, hysbysiad diwygio, neu dystysgrif blaniau wedi ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol

### Y ffurf

**1.** Nid yw'r hysbysiad yn y ffurf ragnodedig.

### Awdurdod lleol anghywir

**2.** Ni fydd unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad yn cael ei gynnal yn ardal yr awdurdod lleol y rhoddwyd yr hysbysiad iddo.

### Capasiti cymeradwywr

**3.** Nid yw'r person a lofnododd yr hysbysiad fel cymeradwywr yn gymeradwywr ar y dyddiad y gwrthodir yr hysbysiad neu os yw'n gymeradwywr ar y dyddiad hwnnw, nid yw ei gofrestriad yn cynnwys yr holl waith a ddisgrifir yn yr hysbysiad.

**4.** Yn ogystal, yn achos hysbysiad diwygio, nid y person a lofnododd yr hysbysiad diwygio fel cymeradwywr yw'r cymeradwywr a roddodd yr hysbysiad cychwynnol.

### Torri adran 54B

**5.** O ran y person a bennir yn yr hysbysiad fel yr arolygydd cofrestredig adeiladu a roddodd gyngor mewn perthynas â'r hysbysiad hwnnw—

(a) nid oedd yn arolygydd cofrestredig adeiladu ar y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad, neu

(b) roedd yn arolygydd cofrestredig adeiladu ar y dyddiad hwnnw ond nid oedd ei gofrestriad yn cynnwys yr holl waith a ddisgrifiwyd yn yr hysbysiad.

### Gwybodaeth am y gwaith arfaethedig

**6.** Nid yw'r hysbysiad na'r planiau a'r dogfennau cysylltiedig yn cynnwys—

(a) lleoliad a disgrifiad o'r gwaith, gan gynnwys defnydd unrhyw adeilad y mae'r gwaith yn ymwneud ag ef;

(b) yr wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod lleol i benderfynu a ddylid gwrthod yr hysbysiad ar sail 10 neu 11;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) gwybodaeth am ba un a yw'r gwaith yn ymwneud ag annedd newydd ai peidio.

**Awdurdod tân ac achub**

**7.** Mae'n ofynnol gan reoliad 8 i'r cymeradwywr ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn rhoi tystysgrif blaniau neu dystysgrif derfynol, ac nid yw'r hysbysiad yn cynnwys ymrwymiad i wneud hynny.

**Ymgymerwr carthffosiaeth**

**8.** Mae'n ofynnol gan reoliad 9 i'r cymeradwywr ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn rhoi tystysgrif blaniau neu dystysgrif derfynol, ac nid yw'r hysbysiad yn cynnwys ymrwymiad i wneud hynny.

**Annibyniaeth**

**9.** Nid yw'r hysbysiad yn cynnwys declarasiwn gan y cymeradwywr nad oes gan y cymeradwywr, ac ni fydd gan y cymeradwywr tra bo'r hysbysiad cychwynnol mewn grym, unrhyw fuddiant proffesiynol nac ariannol yn y gwaith hwnnw.

**Cysylltiad draen**

**10.** Yn achos codi neu estyn adeilad, mae'r awdurdod lleol o'r farn, er mwyn cydymffurfio â gofynion Rhan H o Atodlen 1 i Reoliadau 2010, fod rhaid i ddraen neu garthffos breifat arfaethedig ollwng i garthffos bresennol, ond nid yw'r datganiad sy'n cyd-fynd â'r hysbysiad yn disgrifio trefniant o'r fath.

**Deddfiadau lleol**

**11.** Nid yw'r awdurdod lleol yn fodlon y bydd y gwaith a ddisgrifir yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfiad lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol, neu sy'n ei awdurdodi, i wrthod planiau a gyflwynir yn unol â rheoliadau adeiladu.

**Hysbysiad cynharach**

**12.**—(1) Ac eithrio pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, mae hysbysiad cychwynnol ("hysbysiad cynharach") eisoes wedi ei roi mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad.

(2) Nid yw'r sail yn is-baragraff (1) yn gymwys os—

(a) yw hysbysiad cynharach wedi peidio â bod mewn grym ac nid yw'r awdurdod lleol wedi cymryd unrhyw gamau cadarnhaol i oruchwylio'r gwaith a ddisgrifir ynddo, neu

(b) yw'r hysbysiad yn cyd-fynd ag ymgymeriad gan y cymeradwywr a roddodd hysbysiad

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cynharach i'r perwyl y bydd y cymeradwywr yn canslo'r hysbysiad hwnnw cyn gynted ag y derbynnir yr hysbysiad cychwynnol sydd o dan ystyriaeth.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 3

Rheoliad 10

## Y seiliau dros wrthod tystysgrif blaniau, neu dystysgrif blaniau wedi ei chyfuno â hysbysiad cychwynnol

**Y ffurf**

**1.** Nid yw'r dystysgrif yn y ffurf ragnodedig.

**Awdurdod lleol anghywir**

**2.** Ni fydd unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir yn y dystysgrif blaniau yn cael ei gynnal yn ardal yr awdurdod lleol y rhoddwyd y dystysgrif iddo.

**Gwaith**

**3.** Nid yw'r dystysgrif yn disgrifio'r gwaith y mae'n ymwneud ag ef.

**Planiau**

**4.** Nid yw'r dystysgrif yn pennu'r planiau y mae'n ymwneud â hwy.

**Dim hysbysiad cychwynnol**

**5.** Ac eithrio pan gyfunir tystysgrif blaniau â hysbysiad cychwynnol, nid oedd unrhyw hysbysiad cychwynnol mewn grym mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifir yn y dystysgrif ar yr adeg y rhoddwyd y dystysgrif.

**Capasiti cymeradwywr**

**6.** Roedd hysbysiad cychwynnol mewn grym mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifiwyd yn y dystysgrif ar yr adeg y rhoddwyd y dystysgrif, ond—

(a) nid yw'r dystysgrif wedi ei llofnodi gan y cymeradwywr a roddodd yr hysbysiad cychwynnol,

(b) nid yw'r person a lofnododd y dystysgrif yn gymeradwywr ar y dyddiad y gwrthodir yr hysbysiad, neu

(c) pan fo'n gymeradwywr, nid yw ei gofrestriad yn cynnwys yr holl waith a ddisgrifir yn y dystysgrif.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Torri adran 54B**

**7.** O ran y person a bennir yn y dystysgrif fel yr arolygydd cofrestredig adeiladu a roddodd gyngor mewn perthynas â'r dystysgrif honno—

(a) nid oedd yn arolygydd cofrestredig adeiladu ar y dyddiad y cyflwynwyd y dystysgrif, neu

(b) roedd yn arolygydd cofrestredig adeiladu ar y dyddiad hwnnw ond nid oedd ei gofrestriad yn cynnwys yr holl waith a ddisgrifiwyd yn y dystysgrif.

**Awdurdod tân ac achub**

**8.** Roedd yn ofynnol gan reoliad 8 i'r cymeradwywr ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn rhoi'r dystysgrif, ond nid yw'r dystysgrif yn cynnwys declarasiwn bod yr apelydd wedi ymgynghori â hwy yn unol â'r rheoliad hwnnw.

**Ymgymerwr carthffosiaeth**

**9.** Roedd yn ofynnol gan reoliad 9 i'r cymeradwywr ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn rhoi'r dystysgrif, ond nid yw'r dystysgrif yn cynnwys declarasiwn bod yr apelydd wedi ymgynghori â hwy yn unol â'r rheoliad hwnnw.

**Annibyniaeth**

**10.** Nid yw'r dystysgrif yn cynnwys declarasiwn gan y cymeradwywr nad yw'r cymeradwywr, ers rhoi'r hysbysiad cychwynnol o dan sylw, wedi cael unrhyw fuddiant proffesiynol nac ariannol yn y gwaith hwnnw.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## ATODLEN 4 Rheoliad 12

## Y seiliau dros wrthod tystysgrif derfynol

**Y ffurf**

**1.** Nid yw'r dystysgrif yn y ffurf ragnodedig.

**Awdurdod lleol anghywir**

**2.** Ni chynhaliwyd unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir yn y dystysgrif derfynol yn ardal yr awdurdod lleol y rhoddwyd y dystysgrif iddo.

**Gwaith**

**3.** Nid yw'r dystysgrif yn disgrifio'r gwaith y mae'n ymwneud ag ef.

**Dim hysbysiad cychwynnol**

**4.** Nid oedd unrhyw hysbysiad cychwynnol mewn grym mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifiwyd yn y dystysgrif ar yr adeg y rhoddwyd y dystysgrif.

**Capasiti cymeradwywr**

**5.** Roedd hysbysiad cychwynnol mewn grym mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifiwyd yn y dystysgrif ar yr adeg y rhoddwyd y dystysgrif, ond—

(a) nid yw'r dystysgrif wedi ei llofnodi gan y cymeradwywr a roddodd yr hysbysiad cychwynnol,

(b) nid yw'r person a lofnododd y dystysgrif yn gymeradwywr ar y dyddiad y gwrthodir y dystysgrif, neu

(c) pan fo'n gymeradwywr, nid yw ei gofrestriad yn cynnwys yr holl waith a ddisgrifir yn y dystysgrif.

**Torri adran 54B**

**6.** O ran y person a bennir yn y dystysgrif fel yr arolygydd cofrestredig adeiladu a roddodd y cyngor mewn perthynas â'r dystysgrif honno—

(a) nid oedd yn arolygydd cofrestredig adeiladu ar y dyddiad y cyflwynwyd y dystysgrif, neu

(b) roedd yn arolygydd cofrestredig adeiladu ar y dyddiad hwnnw ond nid oedd ei gofrestriad yn cynnwys yr holl waith a ddisgrifiwyd yn y dystysgrif.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Diffyg cadarnhad ynghylch gwybodaeth diogelwch tân

**7.** Mae rheoliad 38 o Reoliadau 2010, fel y'i cymhwyswyd gan reoliad 5 (addasu Rheoliadau 2010 etc.), yn gymwys i'r gwaith adeiladu y mae'r dystysgrif derfynol yn ymwneud ag ef ac nid yw'r cymeradwywr wedi darparu cadarnhad bod y person sy'n cynnal y gwaith wedi hysbysu'r cymeradwywr i'r perwyl bod yr wybodaeth diogelwch tân wedi ei rhoi i'r person cyfrifol fel sy'n ofynnol gan y rheoliad hwnnw.

### Annibyniaeth

**8.** Nid yw'r dystysgrif yn cynnwys declarasiwn gan y cymeradwywr nad yw'r cymeradwywr, ers rhoi'r hysbysiad, wedi cael unrhyw fuddiant proffesiynol nac ariannol yn y gwaith hwnnw.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 5

Rheoliad 22

## Y seiliau dros wrthod tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo

### Yr wybodaeth ofynnol

**1.** Nid yw'r dystysgrif drosglwyddo yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 20 (gwybodaeth i'w chynnwys mewn tystysgrifau trosglwyddo).

**2.** Nid yw naill ai'r dystysgrif drosglwyddo neu'r adroddiad trosglwyddo yn cynnwys gwybodaeth sy'n ofynnol gan unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau Deddf 1984.

### Awdurdod lleol anghywir

**3.** Ni fydd unrhyw ran o'r gwaith anorffenedig a ddisgrifir yn y dystysgrif drosglwyddo yn cael ei gynnal yn ardal yr awdurdod lleol y rhoddwyd y dystysgrif drosglwyddo iddo.

### Dim hysbysiad cychwynnol

**4.** Nid oedd unrhyw hysbysiad cychwynnol newydd o dan adran 53(7)(a) o Ddeddf 1984 mewn grym mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifir yn y dystysgrif drosglwyddo ar yr adeg y rhoddwyd y dystysgrif drosglwyddo.

### Capasiti cymeradwywr

**5.** Roedd hysbysiad cychwynnol newydd mewn grym mewn cysylltiad â'r gwaith anorffenedig a ddisgrifiwyd yn y dystysgrif drosglwyddo ar yr adeg y rhoddwyd y dystysgrif, ond—

(a) nid yw'r dystysgrif wedi ei llofnodi gan y cymeradwywr a roddodd yr hysbysiad cychwynnol newydd,

(b) nid yw'r person a lofnododd y dystysgrif yn gymeradwywr ar y dyddiad y gwrthodir y dystysgrif, neu

(c) pan fo'n gymeradwywr, nid yw ei gofrestriad yn cynnwys yr holl waith a ddisgrifir yn y dystysgrif.

### Torri adran 54B

**6.** O ran y person a bennir yn y dystysgrif fel yr arolygydd cofrestredig adeiladu a roddodd gyngor mewn perthynas â'r dystysgrif honno—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) nid oedd yn arolygydd cofrestredig adeiladu ar y dyddiad y cyflwynwyd y dystysgrif, neu

(b) roedd yn arolygydd cofrestredig adeiladu ar y dyddiad hwnnw ond nid oedd ei gofrestriad yn cynnwys yr holl waith a ddisgrifiwyd yn y dystysgrif.

**Hysbysiad cynharach**

**7.**—(1) Ac eithrio pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, mae hysbysiad cychwynnol newydd o dan adran 53(7) o Ddeddf 1984 ("hysbysiad cynharach") eisoes wedi ei roi mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r gwaith anorffenedig a ddisgrifir yn yr hysbysiad.

(2) Nid yw'r sail yn is-baragraff (1) yn gymwys os—

(a) yw hysbysiad cynharach wedi peidio â bod mewn grym ac nid yw'r awdurdod lleol wedi cymryd unrhyw gamau cadarnhaol i oruchwylio'r gwaith a ddisgrifir ynddo, neu

(b) yw'r hysbysiad yn cyd-fynd ag ymgymeriad gan y cymeradwywr a roddodd hysbysiad cynharach i'r perwyl y bydd y cymeradwywr yn canslo'r hysbysiad hwnnw cyn gynted ag y derbynnir yr hysbysiad cychwynnol sydd o dan ystyriaeth.

(3) Mae tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo eisoes wedi eu derbyn.

**Gweithredu gan awdurdod lleol**

**8.**—(1) Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad o dan adran 36 o Ddeddf 1984, hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad stop mewn perthynas â'r gwaith anorffenedig.

(2) Daeth cais i law'r awdurdod lleol mewn perthynas â'r cyfan neu ran o'r gwaith anorffenedig yn unol â rheoliad 18 o Reoliadau 2010.

(3) Fel arall, mae'r awdurdod lleol wedi cymryd unrhyw gamau cadarnhaol i oruchwylio'r gwaith anorffenedig.

**Methu â darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani**

**9.** Rhoddwyd cais i'r cymeradwywr o dan adran 53C(4) o Ddeddf 1984 ond methodd â darparu'r wybodaeth o fewn y cyfnod y cyfeirir ato yn yr adran honno.

**Methu â chydymffurfio ag amserlenni rhagnodedig**

**10.** Nid yw'r dystysgrif drosglwyddo a'r adroddiad trosglwyddo wedi eu cyflwyno cyn diwedd y cyfnod perthnasol yn unol ag adran 53B(3) o Ddeddf 1984.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 6 Rheoliad 25

## Y seiliau dros wrthod hysbysiad corff cyhoeddus, neu hysbysiad corff cyhoeddus wedi ei gyfuno â thystysgrif blaniau

**Y ffurf**

**1.** Nid yw'r hysbysiad yn y ffurf ragnodedig.

**Awdurdod lleol anghywir**

**2.** Ni fydd unrhyw ran o'r gwaith a ddisgrifir yn yr hysbysiad yn cael ei gynnal yn ardal yr awdurdod lleol y rhoddwyd yr hysbysiad iddo.

**Capasiti corff cyhoeddus**

**3.** Nid yw'r corff y llofnodwyd yr hysbysiad ar ei ran yn gorff cyhoeddus o fewn ystyr adran 54 o Ddeddf 1984.

**Awdurdod tân ac achub**

**4.** Mae'n ofynnol gan reoliad 26 i'r corff cyhoeddus ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn rhoi tystysgrif blaniau corff cyhoeddus neu dystysgrif derfynol corff cyhoeddus, ac nid yw'r hysbysiad yn cynnwys ymrwymiad i wneud hynny.

**Ymgymerwr carthffosiaeth**

**5.** Mae'n ofynnol gan reoliad 27 i'r corff cyhoeddus ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn rhoi tystysgrif blaniau corff cyhoeddus neu dystysgrif derfynol corff cyhoeddus, ac nid yw'r hysbysiad yn cynnwys ymrwymiad i wneud hynny.

**Cysylltiad draen**

**6.** Yn achos codi neu estyn adeilad, mae'r awdurdod lleol o'r farn, er mwyn cydymffurfio â gofynion Rhan H o Atodlen 1 i Reoliadau 2010, fod rhaid i ddraen neu garthffos breifat arfaethedig ollwng i garthffos bresennol, ond nid yw'r datganiad sy'n cyd-fynd â'r hysbysiad yn disgrifio trefniant o'r fath.

**Deddfiadau lleol**

**7.** Nid yw'r awdurdod lleol yn fodlon y bydd y gwaith a ddisgrifir yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfiad lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol, neu sy'n ei

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

awdurdodi, i wrthod planiau a gyflwynir yn unol â rheoliadau adeiladu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 7

Rheoliad 28

## Y seiliau dros wrthod tystysgrif blaniau corff cyhoeddus, neu hysbysiad corff cyhoeddus wedi ei gyfuno â thystysgrif blaniau

**Y ffurf**

**1.** Nid yw'r dystysgrif yn y ffurf ragnodedig.

**Gwaith**

**2.** Nid yw'r dystysgrif yn disgrifio'r gwaith y mae'n ymwneud ag ef.

**Planiau**

**3.** Nid yw'r dystysgrif yn pennu'r planiau y mae'n ymwneud â hwy.

**Dim hysbysiad corff cyhoeddus**

**4.** Ac eithrio pan gyfunir tystysgrif blaniau corff cyhoeddus â hysbysiad corff cyhoeddus, nid oedd unrhyw hysbysiad corff cyhoeddus mewn grym mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifir yn y dystysgrif ar yr adeg y rhoddwyd y dystysgrif.

**Capasiti corff cyhoeddus**

**5.** Roedd hysbysiad corff cyhoeddus mewn grym mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifiwyd yn y dystysgrif ar yr adeg y rhoddwyd y dystysgrif, ond—

(a) nid yw'r dystysgrif wedi ei llofnodi gan neu ar ran y corff cyhoeddus a roddodd yr hysbysiad hwnnw, neu

(b) mae'r corff hwnnw wedi peidio â bod yn gorff cyhoeddus o fewn ystyr adran 54 o Ddeddf 1984.

**Awdurdod tân ac achub**

**6.** Roedd yn ofynnol gan reoliad 26 i'r corff cyhoeddus ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn rhoi'r dystysgrif, ond nid yw'r dystysgrif yn cynnwys declarasiwn yr ymgynghorwyd â hwy yn unol â'r rheoliad hwnnw.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Ymgymerwr carthffosiaeth**

**7.** Roedd yn ofynnol gan reoliad 27 i'r corff cyhoeddus ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn rhoi'r dystysgrif, ond nid yw'r dystysgrif yn cynnwys datganiad yr ymgynghorwyd â hwy yn unol â'r rheoliad hwnnw.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 8

Rheoliad 30

## Y seiliau dros wrthod tystysgrif derfynol corff cyhoeddus

**Y ffurf**

**1.** Nid yw'r dystysgrif yn y ffurf ragnodedig.

**Gwaith**

**2.** Nid yw'r dystysgrif yn disgrifio'r gwaith y mae'n ymwneud ag ef.

**Capasiti corff cyhoeddus**

**3.** Nid oedd unrhyw hysbysiad corff cyhoeddus mewn grym mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifiwyd yn y dystysgrif ar yr adeg y rhoddwyd y dystysgrif.

**Dim llofnod priodol**

**4.** Roedd hysbysiad corff cyhoeddus mewn grym mewn cysylltiad â'r gwaith a ddisgrifir yn y dystysgrif ar yr adeg y rhoddwyd y dystysgrif, ond nid yw'r dystysgrif wedi ei llofnodi gan neu ar ran y corff cyhoeddus a roddodd yr hysbysiad hwnnw.

**Awdurdod tân ac achub**

**5.** Roedd yn ofynnol gan reoliad 26 i'r corff cyhoeddus ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub cyn rhoi'r dystysgrif, ond nid yw'r dystysgrif yn cynnwys datganiad yr ymgynghorwyd â hwy yn unol â'r rheoliad hwnnw.

**Ymgymerwr carthffosiaeth**

**6.** Roedd yn ofynnol gan reoliad 27 i'r corff cyhoeddus ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn rhoi'r dystysgrif, ond nid yw'r dystysgrif yn cynnwys datganiad yr ymgynghorwyd â hwy yn unol â'r rheoliad hwnnw.